# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 439 | Mawrth 2023 | Pris £1


# Datblygiadau cyffrous yn Y Gât, Heol y Pentre, Sanclêr

st. clears town council

cyngor tref sanclêr

Ar Ddydd Sadwrn, 1af Ebrill 2023, bydd Cyngor Tref Sanclêr yn cymryd drosodd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd rhedeg y Gât, Heol y Pentre, Sanclêr, cyn gartref Canolfan Grefft Gorllewin Cymru. Mae hyn yn cyflwyno cyfle i'r gymuned yn Sanclêr greu hwb cymunedol newydd yng nghanol y dre. Bydd hyn yn ddechrau newydd i'r adeilad ac yn gyfle i ail ddiffinio a datblygu'r hyn sydd ar gael yno. Hoffai'r Cyngor Tref eich cymorth fel cymuned i lunio'r hyn rydych yn teimlo eich bod eisiau, angen, neu'n gallu cynnig, cefnogi a datblygu'r prosiect cyffrous hwn. Mae Cyngor Tref Sanclêr wedi bod yn trafod gyda Chyngor Sir Gâr am y dair blynedd diwethaf i sicrhau'r trosglwyddiad yma ac yn y pen draw i'w ddatblygu ymhellach trwy Ymddiriedolaeth Gymunedol. Gan bod y Cyngor Tref bellach wedi arwyddo prydles ar gyfer yr adeilad, mae gan Gyngor Tref Sanclêr weledigaeth y gall y Gât ddod yn ganolfan

- Gweithgareddau creadigol, gan gynnwys y celfyddydau creadigol a'r cyfryngau.
- Gweithgareddau masnachol, gan gynnwys canolfan fusnes, y llyfrgell a chyfleusterau dinesig.
- Gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys ystafelloedd cyfarfod/swyddogaeth ac ardal gaffi bywiog.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd Landsker yn ymgysylltu â thrigolion gan ddefnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys holiadur ar-lein, galwadau ffôn uniongyrchol, siarad â thrigolion a siopwyr. Bydd ymgyrch yn y cyfryngau hefyd i hyrwyddo'r newid rheolaeth ac i godi ymwybyddiaeth am y fenter newydd. Bydd sesiwn agored i'r cyhoedd yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 25ain Mawrth yn y Gât rhwng 9.30 a 12.30 gyda grwpiau ffocws yn cael eu creu er mwyn galluogi'r rhai sy'n mynychu i rannu eu barn. Mae'r Cyngor Tref yn gweld hwn fel prosiect hirdymor i greu cyfleuster cymunedol hunangynhaliol a fydd, drwy gyfuniad o swyddogaethau, yn creu adeilad etifeddiaeth a all wasanaethu'r gymuned leol, ymwelwyr â'r dref am flynyddoedd lawer i ddod. Maent yn rhagweld dull graddol o ymdrin â'r trawsnewid hwn wrth iddynt ddysgu mwy am anghenion a dymuniadau'r gymuned. Edrychant ymlaen yn frwdfrydig i gydweithio gyda'r gymuned a llwyddiant y prosiect cyffrous hwn.

## Enillydd £500 Raffl Fawr Y Cardi Bach




Carwyn Rees, enillydd prif wobr Clwb 200 y Cardi Bach, yn derbyn siec o £500 wrth Eurfyl.

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Nansi Evans 01994 448392 |
| **Cornel Garddio:** | John Davies 01994 240059 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Mae ein gast ddefaid, Dyfi, yn 14 oed bellach, ac wedi bod yn dioddef o glefyd y siwgwr ers hanner ei chyfnod ar y ddaear hon. Ac ers 2016, mae hi wedi cael ei hadnabod fel Dyfi Diabetig ar ein haelwyd ni. Mae rhoi brechiad iddi yn brydlon ddwywaith y dydd yn dipyn o gyfrifoldeb, yn enwedig pan fo digwyddiadau eraill bywyd yn galw.

Ond bu'n rhaid addasu, a daeth yr hen greadures i arfer yn go gyflym â'r drefn newydd, a chael pigyn yn ei gwar am naw y bore, a naw y nos.

Erbyn hyn, mae'r hen glefyd y siwgwr a henaint yn ennill tir, a Dyfi bellach yn ddall ac yn clywed braidd dim. Pan rydw i'n egluro hynny wrth eraill, ymateb yn llawn tosturi y mae'r mwyafrif. Ac ar yr olwg gyntaf, mae hynny'n hawdd i'w ddeall. Ydy, mae hi wedi colli dau o'i phum synnwyr. Ond mae'r synhwyrau eraill yn gweithio ddwywaith caletach. Y ffroenau yw'r brif ddibyniaeth bellach. Ac mae hi'n dal i ysgwyd ei chynffon er gwaetha'r rhwystrau presennol.

Ac mae Dyfi a ninnau hefyd wedi gorfod addasu. Yn ei milltir sgwar o amgylch y cartref, mae hi'n ymdopi'n rhyfeddol. Mae'n holl bwysig bellach fod y fowlen fwyd, a phob dodrefnyn yn aros yn yr un lle, ac mae'n amlwg fod y cof yn berffaith – mae Dyfi yn gwybod yn union ym mhle mae'r bwrdd bwyd a'r oergell ac yn cymryd gofal ar bob gris, sy'n gyfarwydd iddi y tu allan i'r cartref.

Dim ond swn clapio y mae hi'n ei glywed bellach, felly mae'n siwr fod y cymdogion yn meddwl mod i wedi colli pob synhwyryn, pan dwi'n clapio yn yr ardd ben bore ac yn hwyr y nos, er mwyn ceisio ei hannog i ddychwelyd atai.

Ond wrth adael y filltir sgwar gyfarwydd, dyw pethau ddim cweit mor rhwydd. Mae ymyl palmentydd yn profi'n heriol a bellach mae hi wedi deall fod "aros" yn golygu bod angen iddi sefyll a chodi ei phawen yn hytrach na baglu dros ymyl y palmant. Unwaith eto, mae rhywbeth newydd i'w ddysgu. Mae'n brofiad gwahanol (a phleserus os gai fod yn onest) i basio cwn eraill, heb orfod gafael yn dynn yn y tennyn i'w dal yn ôl. Ond profiad anymunol iawn oedd ceisio ei rhyddhau o dwll mewn grid ar ymyl hewl ymuno brysur Sanclêr, gyda'i choes ôl wedi cwympo trwy'r bwlch, a rhes o geir yn dechrau ciwio y tu ôl i fi. A sylweddoli ar y foment lletchwith honno, fod cwn yn amlwg yn gwybod sut i osgoi tyllau ac unrhyw rwystrau eraill pan yn gweld, a bod eu pedair coes yn neidio drostyn nhw yn gwbwl reddfol a naturiol.

Gwell nodi ein bod ni wedi newid y llwybr cerdded erbyn hyn, rhag ofn i mi a Dyfi ymddangos ym mwletin traffig Radio Cymru yn y dyfodol. Rydw i'n aml yn clywed fod defaid neu wartheg ar hewl, ond eto i glywed adroddiadau fod ci wedi mynd yn sownd mewn grid. Felly dwi ddim yn dymuno bod y cyntaf!

Ond yr hyn sy'n rhyfeddol ydy fod gan greaduriaid - union yr un fath â phobl - y ddawn a'r gallu i addasu, be bynnag fo'r heriau a'r rhwystrau ar y gorwel. Ac a dweud y gwir, mae'n un o'r doniau mwyaf gwerthfawr sydd o fewn ein gafael ni i gyd.

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Lynys Davies
01437 563319
mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@btconnect.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parch. Sian Elin Thomas*

Dros y flwyddyn neu ddwy diwethaf, mae ceisiadau wedi dod ataf, i ysgrifennu erthyglau neu golofnau o'r fath yma. A'r cwestiwn cyntaf dw i'n dueddol o ofyn i fy hunan yw 'Pam fi?' 'Beth yn y byd sydd gyda fi i ddweud wrth bobl?' Sydd efallai ddim yn gwestiwn da i weinidog yr efengyl i ofyn iddi ei hun.

Ar y cyfan rydw i'n cael fy nghyflogi i rannu neges. Dehongli'r efengyl a cheisio, yn fy ffordd fy hun, i ddweud wrth eraill am ddilyn Iesu a charu Duw.

Felly, dyma'r un cwestiwn yn cael ei ofyn y tro yma eto, wrth eistedd o flaen y 'laptop' yn fy swyddfa fach yng Nghrymych, yn gwybod bod y 'deadline' yn agosau. 'Beth yn y byd sydd gyda fi i ddweud?'

Wrth baratoi neges am y Sul, wrth baratoi'r golofn i'r Cennad, wrth baratoi gwasanaethau i'r Ysgolion, y peth dw i o hyd yn ceisio ei wneud yw rhoi tamed bach o'n hunan yn y neges. Bod yn onest, bod yn agored am brofiadau fy mywyd fel unigolyn, ac wrth wneud hynny gobeithio bydd pobl yn medru uniaethu wrth ddarllen neu wrando ar beth sydd gyda fi i ddweud.

Yn aml, dw i wedi bod mewn sefyllfa o deimlo fel fy mod i ddim yn ddigon da i wneud y gwaith breintiedig dw i yn ei wneud. Yn aml mae'r teimlad bod rhywun yn mynd i ddod ata i a dweud, wps, camgymeriad yw'r cyfan. Ond, na, hyd yn hyn, does neb wedi rhoi stop arna i, a gallaf ddweud gyda llaw ar fy nghalon, fy mod yn caru'r gwaith dw i yn ei wneud. Cofiwch, er fy mod yn fwy prysur nawr nag erioed, dw i ddim yn ei alw yn waith, ond wir yn llafur cariad. Hyd yn oed yn ystod yr adegau anodd ble dw i yn ceisio bod yna i deuluoedd a ffrindiau yng nghyfnodau gwaethaf eu bywyd.

Y neges fach syml sydd gyda fi i chi yw hyn. Wrth feddwl am y mis rydym ynddo, mis ble rydym yn cofio geiriau enwog ein nawddsant, ***'gwnewch y pethau bychain'***. 'Nôl yng nghanol fy hyfforddiant yng Ngholeg y Bedyddwyr roedd yna freuddwydion o wneud pethau arbennig, pethau enfawr, cyflawni llawer o bethau mewn amser byr. Fe ddês i ddeall yn weddol gyflym bod hynny ddim yn mynd i fod yn bosib, a bod y gwaith yn y "pethau bach".

Y pethau bach o ddydd i ddydd. Mynd allan i gynnal gwasanaeth mewn ysgol, paratoi angladdau, mynd i ambell fore goffi, mynd i ymweld ag aelodau, dal llaw deiliaid Glyn Nest, a phregethu ar y Sul. Pethau bach. ond os ydych yn gwneud y pethau bychain hynny gyda chariad, ffydd a llawenydd, byddwch yn gwneud gwahaniaeth ym mywydau eich pobl. Fel gweinidog dw i wedi gweld gwerth yn y pethau bach, y pethau bach sydd yn cyfri. Y pethau bach sydd yn dangos fy mod i yna amser mae angen.

Mae yna adegau cofiwch, ble rydw i dal yn teimlo y gallaf wneud rhagor, ond drwy fendith Duw, fe ddaw'r cyfleoedd hynny, i wneud y pethau bach yn rhai ychydig yn fwy. Felly cadwch y ffydd, byddwch lawen a gwnewch y pethau bychain.



Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# *I'ch diddori* gan John Arfon

## *Clonc*

Roedd y llanast enfawr gan y daeargrynfeydd yn Nhwrci a Syria yn ddiweddar yn dorcalonnus gyda thros 60,000 o bobl wedi eu lladd. Mae hi'n anodd credu sut mae'r fath drychineb yn digwydd y dyddiau hyn ond mae natur yn medru bod mor gryf a chreulon. Gallwn ond rhoi pob cymorth a fedrwn i'r ardaloedd hyn yn awr.

Ar ddiwedd mis Chwefror nodwyd blwyddyn ers i Rwsia ymosod ar yr Wcrain. Roeddent wedi meddwl gorchfygu'r wlad mewn dim amser, ond drwy ddewrder, gwroldeb a phenderfyniad y genhedlaeth maent wedi dangos i'r gelyn nad ydynt am ildio os medrant. Gyda llawer mwy o gymorth gan y mwyafrif mawr o wledydd y byd, gobeithio y cant lwyddiant i atal Putin y flwyddyn hon. Yn anffortunus nid yw poblogaeth gwerin Rwsia yn cael gwybod am yr anghyfiawnderau a'r erchylltra mae Putin a'i filwyr yn ei wneud yn yr Wcrain.

---

Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi Ysgol Dyffryn Taf am guro Ysgol o Merthyr yn y rownd derfynol yng Nghystadleuaeth Tarian y Principality.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | O | X | O | X | X |
| O | O | X | X | O | X |
| X | X | O | O | X | O |
| X | O | X | X | O | O |
| O | X | O | O | X | X |
| X | X | O | X | O | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | 5 | 8 | 1 | 9 | 7 | 6 | 4 | 2 |
| 2 | 6 | 9 | 5 | 3 | 4 | 1 | 7 | 8 |
| 7 | 4 | 1 | 8 | 6 | 2 | 9 | 5 | 3 |
| 8 | 1 | 2 | 3 | 7 | 5 | 4 | 6 | 9 |
| 5 | 9 | 4 | 2 | 1 | 6 | 3 | 8 | 7 |
| 6 | 3 | 7 | 9 | 4 | 8 | 5 | 2 | 1 |
| 4 | 8 | 3 | 6 | 2 | 9 | 7 | 1 | 5 |
| 9 | 7 | 5 | 4 | 8 | 1 | 2 | 3 | 6 |
| 1 | 2 | 6 | 7 | 5 | 3 | 8 | 9 | 4 |

**Dyma ddau i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | | | | | X |
| | | | | | |
| | O | | O | | |
| | | | | | O |
| | | O | O | | |
| | | | O | O | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | | 3 | | | | | 8 | 2 |
| 5 | 1 | 7 | | | | | 6 | |
| 2 | 4 | | 6 | 9 | | | | |
| 8 | | | 3 | | 4 | 1 | | |
| | | | | | 1 | 6 | | |
| | | | | 2 | | | | |
| | | | | | | | | 8 |
| | | | 9 | 5 | | 7 | | |
| **4** | | **2** | **8** | | | | **3** | **6** |


**Dyma atebion pôs Cwpan y Byd**

Os ydych yn cofio roeddwn am ichwi restri y timoedd fel un llinell hir heb doriad felly dyma'r hyn y dylech ei gael.

Gwlad Pwyl; Camerwn; Brasil; De Corea; Iseldiroedd; UD America; Serbia; Portiwgal; Twnisia; Wrwgwai; Ghana; Awstralia; Ariannin; Morocco; Sawdi Arabia; Lloegr; Gwlad Belg; Costa Rica; Swisdir; Senegal; Croatia; Ecuador; Almaen; Canada; Mecsico; Sbaen; Ffrainc; Denmarc; Siapan; Cymru; Qatar ac Iran.

Dyma'r cystadlaethau i'ch diddori y mis hwn. Gobeithio y gwnewch eu mwynhau.

A . Tybed a fedrwch ddatrys y grid a chanfod yr ateb.




Dyma'r cliwiau,

1. Haearn
2. Coluro
3. Main
4. Oherwydd
5. Cynddeiriogi
6. Clawdd

B. Mae'r ail gystadleuaeth yn gwneud tri yn un. A allwch ganfod 15 o donau Cymru gan uno tri o'r rhesr i greu tôn ac enw lle yng Nghymru, e.e. Pe byddai gennych y canlynol aber, bert, gran, her, llan, og, tre, wyth, yst. Gallech gael y dair dôn canlynol; ABERYSTWYTH, LLANGRANOG a TREHERBERT.

Dyma'r rhestr ichwi ddewis ohonynt.
aber, ail, ar, au, ba, beth, bryn, co, cwm, darn, de, dol, du, dwy, ddan, ddu, edd, ef, er, ffyn, gan, garth, gell, gi, glan, go, gog, hem, hon, lais, le, llan, maen, mor, nod, non, nwy, og, pont, tan, tre, twr,

Er fy mod yn gwybod nad oedd iechyd Eric Hughes, Hafan Dawel, Pwlltrap heb fod yn dda yn ddiweddar, ac ei fod i mewn yn yr ysbyty, cefais sioc o glywed am ei farwolaeth. Roeddwn yn hoff iawn ac yn mwynhau ei gwmni trwy gydol yr amser yr oeddem yng nghyfarfodydd yr Hoelion Wyth yn yr Hendygwyn a byddaf yn colli ei gwmni yn fawr. Bu hefyd yn gefnogol iawn i 'r holl gystadlaethau a roddwn yn y Cardi Bach yn fisol. Hoffwn gyfleu fy nghydymdeimlad dwysaf i'w wraig Phyllis a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Yn anffodus nid wyf i wedi bod cant y cant yn ddiweddar fel y dywed y canlynol.

Nid yw'r galon heno'n curo,
Fel y bu yr amser gynt ,
Tyndra ar fy mrest sy'n mlino,
Ac rwy'n aml mas o wynt;
Ond gobeithiaf gyda thriniaeth,
Y caf eto weld yr haf,
Gyda'r heulwen yn fy nghnesu -
Nid peth hawdd yw bod yn glaf.







Cynhaliwyd Clwb Cinio yn Neuadd Llanboidy ym mis Tachwedd, Ionawr a Chwefror. Roedd hwn yn gyfle i ddinasyddion hŷn yr ardal i gael pryd dau gwrs am ddim a chymdeithasu gyda ffrindiau. Diolch i'r arlwywyr am barato'r bwyd ac yn bennaf i staff Menter Gorllewin Sir Gâr am weini'r bwyd ac am wneud y trefniadau i gyd. Roedd pawb a fynychodd wedi mwynhau yn fawr iawn ac yn cytuno ei fod wedi bod yn llwyddiant mawr.

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r Clwb 200 a llongyfarchiadau i holl enillwyr y Raffl Fawr. Bydd rhestr o holl aelodau'r clwb yn ymddangos yn rhifyn mis Ebrill o'r Cardi Bach.

Dyma restr o enillwyr y Raffl Fawr:-

**£500**
Carwyn Rees, Boomerang, Crymych.

**£300**
Dylan a Maureen John, Hendre Fawr, Llandysilio.

**£200**
Gillian Beynon, Bwlch y Ddwy Sir, Llandysilio.

**£100**
Vernon Beynon, Bwlch y Ddwy Sir, Llandysilio.
Ken a Cerrys Rees, Glyn Helyg, Hen Dŷ Gwyn.

**£75**
Simon a Faith Wright, Broderwen, Clunderwen.
Y Parchedig Geoffrey Eynon, Digwydd Paso, Casblaidd.
Delyth Jones, Treto Isaf, Trelech.
Cennydd a Rhian Jones, Heol Penygroes, Rhydaman.

**£50**
Iori Jenkins D/O Janette Jenkins, San Clêr.
Olive Bowen, Lan-y-Groes, Penybont.
Euros, Sian ac Elen Evans, Y Rhws, Caerdydd.
Ray Griffiths, Hafod Cwnin, Caerfyrddin.
Gorsaf Betrol Preseli, Llanddewi Efelffre.
Hana a Tomos Rees, Maes Pedr, Caerfyrddin.
Perlys John, 9, Tan Banc, Hwlffordd.
Davies, Masnachwyr Adeiladu, Hen Dŷ Gwyn.

**£40**
Brian John, Rose Garage, Cwmfelin Mynach.
Eifion Daniels, Hafan, Blaenffos.
Nia Llewellyn, Cwmni Delwedd, Crymych.
Cai Booth D/O Garnwen, Llangynin.
Elinor Jameson, Cil y Barcud, Meidrim.
Gareth Phillips, Brynhawddgar, Hen Dŷ Gwyn.
Paul a Carolyn Jenkins, Brosilio, Llandysilio.
Iona Morgan, Ynyswen, Pwll-Trap.
Kevin Bowen, 18, Bryn Gorwel, Caerfyrddin.
Ken a Nia Davies, Caeglas, Llandysilio.


**£30**
Eagle Signs, San Clêr.
Heulwen Elward, Tadil, Talacharn.
Jessica a Zac Edwards, Maes y Frenni, Crymych.
Awen Teifi, Aberteifi.
David Rowlands, 30, Lôn Hywel, Hen Dŷ Gwyn.
Bysiau Cwm Taf, Hen Dŷ Gwyn.
Francesca Beards D/O Wilma Robins, San Clêr.
Ray Lewis, 13, Lôn Ddewi, Meidrim.
Dorman Davies, Glasfryn Park, San Clêr.
John a Pauline Thomas, Tawelfan, Arberth.
Meirion Morris, 38, Maes-y-Bryn, San Clêr.
Megan Beards D/O Wilma Robins, San Clêr.

**£25**
Sheila Thomas, Stryd y Santes Fair, Hen Dŷ Gwyn.
Ronald a Mair Howells, 34 Glasfryn, San Clêr.
T. a VEJ Evans, Henglos, Hen Dŷ Gwyn.
Elliw ac Elen Thomas, Plaspaun, Meidrim.
Beti James, Coedllys, Cwm Meils.
Huw Evans, Brynarfor, Llandudoch.
Cedric Davies, Awelfa, Trelech.
Les Evans, Blaenycoed, Llangynin.
Tomi Cleaver, Adelaide, Awstralia.

**£20**
Gwyndaf a Janet John, Gerrards Cross, Swydd Buckinghamshire.
Meddygfa Taf, Hen Dŷ Gwyn.
Archie Lewis, 13, Lôn Ddewi, Meidrim.
Elfed Lewis, 3, Llyscoed, Llangynin.
Gwynedd James, Crundale, Hwlffordd.

**Aelodaeth Rad**
Grismond a Mary Lewis, Llwynllwyd, Cefnypant.
Hilary Evans, Gwarwenallt, Bancyfelin.
Harri Dylan Bowen, D/O Wilma Robins, San Clêr.
Eirlys Davies, Rhodfa Dewi Sant, Hen Dý Gwyn.
Garej a Theiars Wyn, San Clêr.
Y Parchg a Mrs Guto Llywelyn, Rhydaman.
Sue Phillips, Taf, Llanglydwen.
Gwasanaeth Ceir Hen Dŷ Gwyn.
Hannah, Daniel a Kerry Reynolds, Santa View, San Clêr.
Robert a Lisa Davies, 24 Lôn Hafren, San Clêr.

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,
*Rhian*







# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

**Sut byddech chi'n dweud y brawddegau canlynol ar lafar?**

Yr oedd yn hwyr ____________________

A fyddwch yma? ____________________

A oeddet yn gwrando? ____________________

Yr ydym yn barod ____________________

A fyddant yn y ty? ____________________

Y mae wedi talu am y llyfr ____________________

A brynaist afalau? ____________________

Y maent yn brysur ____________________

A oes amser? ____________________

**TREIGLADAU**
**(Cywirwch y brawddegau isod, os oes angen)**

Byddai'n well gyda chi coffi ____________________

Cei di gyfle arall ____________________

Cysyllta i a pawb ____________________

Ces i lythyr oddi wrth rheolwr y cwmni ____________________

Bydda i yno erbyn deg. ____________________

Ydy hwn yn digon mawr? ____________________

Dyma tair bunt i ti ____________________

Mae fy teulu'n byw yn Gogledd Cymru ____________________

Bydda i'n ei gweld e dydd Sadwrn ____________________

Rhid i mi ymweld a dyn y treth incwm ____________________

Wnewch chi aros y tu allan i'w ty hi? ____________________


ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler

Aeth dau dîm i gystadlu yng Nghwis y Cardi Bach a gwneud yn dda. Enillodd un tîm y cwis a'r llall yn gydradd drydydd. Diolch i Eileen (a Cled), Sally, Rhian, Beti-Wyn, Iona, Heulwen a Lilwen am gynrychioli'r gangen yn y cwis.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn yr Hen Ysgol. Croesawodd Eileen yr aelodau. Hysbysebwyd taith gerdded y Rhanbarth ar Ebrill 1af yn Llyn Llech Owain am 1 o'r gloch, hefyd taith gerdded canghennau a chlybiau ardal Dyffryn Tâf i'w chynnal ar Ebrill 15ed. Bydd y daith hon o gwmpas Hendygwyn ac yn cychwyn am 10.30 o Ganolfan Hywel Dda. Hefyd, bydd angen helpu ar stondin Merched y Wawr ar brynhawn Sadwrn Eisteddfod yr Urdd.

Croesawyd y siaradwraig wadd, sef Janet Knott o Gwmffrwd. Roedd Janet yn nyrs ardal cyn ymddeol ac mae wedi casglu nifer o offer a meddyginiaethau a ddefnyddiwyd slawer dydd. Difyr iawn oedd gwrando arni'n son am hen driniaethau a rhannwyd llawer iawn o atgofion am y ffordd y triniwyd clefydau. Cyflwynodd Janet y wybodaeth mewn ffordd hamddenol a diddorol ac roedd pawb wedi mwynhau gwrando arni. Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Beti-Wyn. Mwynhawyd lluniaeth a phancos blasus a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol. Enillwyd y raffl gan Lilwen.

## Cangen Beca

Cyfarfod i ddathlu Dydd ein Nawddsant Dewi gwnaeth y gangen ar Fawrth 9fed. Er ein bod wythnos yn hwyr, gwnaethom fwynhau y cawl, pwdin a pice ar y maen oedd wedi cael ei paratoi gan Robert yn y caffi yn fawr. Diolch iddo yntau ac i'r rhai fu yn gweini y cyfan. Braf oedd croesawu Margaret Griffiths atom am y tro cyntaf. Gobeithio iddi fwynhau.

Bu Angharad yn darllen rhai o hen gofnodion y gangen yn ôl yn y 70au. Yr oedd llawer yn cofio am yr aelodau cynnar hynny, sydd wedi ein gadael erbyn hyn.

Gwnaeth Eryl George ddweud wrthym ei bod wedi cael swydd llawn amser, ac felly yn methu mynychu ein cyfarfodydd bellach. Diolchwyd iddi am ei gwaith fel llywydd, a dymunwyd yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Braint Eryl wedyn oedd croesawu parti plant o Ysgol Beca i roi ryw hanner awr o bleser a mwynhad i bawb. Braf oedd gwrando arnynt, a gwnaethom fwynhau y parti yn llefaru darnau a chaneuon adnabyddus, a rhai llai adnabyddus. Diolchwyd iddynt am ddod atom i'r caffi, a gwneud i bawb fynd adre yn hapus. Bydd y cyfarfod nesa ar Ebrill 13eg, am 3 o'r gloch pan fyddwn yn disgwyl i Sophie Jenkins ddod atom.

## Cangen Gronw

Cafwyd prynhawn pleserus dros ben ddydd Iau Chwefror 23ain pan fuom yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant yng Nghaffi Beca, Efailwen. Roedd mwyafrif o'r aelodau'n bresennol a chawsom wledd o gawl blasus a dewis o bwdinau gyda phice bach a the neu goffi i ddilyn. Roedd Robert a'i staff wedi paratoi yn anrhydeddus ar ein cyfer a diolchwyd iddo yn fawr iawn am hynny a'i groeso arferol.

Susan oedd llywydd y prynhawn a hi estynodd groeso i'n gŵr gwâdd, Y Parch Eirian Wyn Lewis. Gŵr hynaws, talentog ac adnabyddus o'n hardal ni sydd o hyd yn barod ei gymwynas ac yn ymhyfrydu yn ei allu i gynorthwyo pawb os yn bosibl. Wedi'r cyflwyniad cawsom wledd yn gwrando arno'n sôn am sut gymaint o gyd ddigwyddiadau oedd wedi dod i'w ran a chymaint ohonynt yn cydlynu a'u gilydd. Clywsom am ei gariad at ei ardal ac am Batagonia a'i holl gysylltiadau a'r Wladfa. Diddorol dros ben oedd ei gyflwyniad a phawb wedi mwynhau'r prynhawn yn fawr iawn.

Diolchwyd iddo am ein diddori, aeth yr amser yn hynod o gyflym wrth i ni fwynhau'r arlwy. Da oedd cael bod yno. Enillwyd y raffl gan Wenfys sef trefniant hardd o flodau'r gwanwyn mewn basged. Bore coffi a stondin gacennau ar festri Ramoth, Cwmfelin fydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 30ain o 10 i 12 y bore a chroeso cynnes i bawb.

## Cangen Hendygwyn

Dafydd Llywelyn, Comisiynnydd yr Heddlu oedd fod i ddod i siarad â ni ym mis Chwefror ond, yn anffodus, methodd â dod. Felly ar ddydd Mawrth, Chwefror 21ain, daeth Margarette i'r adwy ac fe gawsom ein tywys o gwmpas Canolfan Hywel Dda a'r gerddi ac fe ddysgom lawer mwy am arwyddocad a phwysigrwydd y deddfau a ffurfiwyd yn yr Hendygwyn ar Daf yn y ddegfed ganrif. Gan ei bod yn ddydd Mawrth Ynyd, roedd Christine a'r criw yn y caffi wedi paratoi pancws i ni tra bu Cerrys

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com


T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

Rees ac Anne Harris yn trefnu disied o de. Casglodd Ann Glanville bobi £2 wrth bawb tuag at gostau stondin MyW yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri. Hefyd, dosbarthwyd ffurflenni i'r aelodau sy' wedi gwirfoddoli cerdded i godi arian tuag at nod Hendygwyn o £5000.

Byddwn yn mwynhau ein cawl blynyddol i ddathlu dydd ein nawddsant yn ein cyfarfod nesa' ar Fawrth 21ain. yng Nghanolfan Genedlaethol Hywel Dda.

## Brecwast Gŵyl Rhinwedd a Moes

Cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi dan nawdd Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca, Efailwen ar fore Sul, Chwefror 26ain ac roedd yn braf gweld y lle dan ei sang.

Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Eurfyl Lewis cyn i bawb ymuno i ganu'r emyn "Dysg i mi garu Cymru" i gyfeiliant Ceirios Jenner. Cafwyd darlleniad gan y Parchedig Guto Llywelyn a gweddi gan y Parchedig Ken Thomas ac yna bu pawb yn mwynhau brecwast bendigedig Caffi Beca! Wedi i bawb gael eu digoni, bu Eurfyl yn cyflwyno'r siaradwraig wadd sef Mererid Hopwood o Langynnwr – un â'i gwreiddiau'n ddwfn yn nhir Pencaer, Shir Benfro. Mae pawb yn gwybod am y ddawn, brwdfrydedd a'r gallu rhyfeddol sydd gan Mererid i gyfathrebu gyda chynulleidfa o bob oed, yn arbennig felly ymhlith pobol ifanc. Mae Mererid wedi annog, dylanwadu ac ysbrydoli cenedlaethau ohonynt ar hyd y blynyddoedd. Mae'n aelod brwd o Gymdeithas y Cymod ac yn lywydd anrhydeddus o Gymdeithas Waldo. Hi oedd y ferch gyntaf i ennill cadair yr Eisteddfod Genedlaethol, yn Ninbych yn 2001 – ac aeth ymlaen i ennill y goron ym Meifod yn 2003.

Cafwyd anerchiad wirioneddol wych ganddi, wedi ei chyflwyno yn ei ffordd unigryw, dihafal ei hun. Bu'n bleser gwrando arni ac roedd cymeradwyaeth frwd a gwresog y gynulleidfa ar y diwedd yn brawf pendant eu bod wedi gwerthfawrogi'r ddarlith yn fawr iawn. Diolchodd Eurfyl iddi'n diffuant am ddod atom, a hynny er gwaethaf y ffaith nad oedd yn teimlo'n hwylus. Diolchodd hefyd i Robert a Delyth James a'u staff ymroddgar am baratoi brecwast bendigedig ar ein cyfer, i Meryl James, yr ysgrifenyddes am gydlynu'r holl drefniadau, i Gwenda Mathias, y trysorydd am ofalu am yr arian, i Ceirios am gyfeilio, i Guto a Ken am y rhannau arweiniol ac i'r gynulleidfa am eu presenoldeb a'u cyfraniadau ariannol. Casglwyd swm o £357 tuag at Ymchwil Leukaemia a chyfranwyd swm o £120 tuag at apêl argyfwng Syria a Twrci.

Ymunodd pawb i ganu'r emyn "Dros Gymru'n Gwlad" ar ddiwedd bore dymunol a bendithiol a thraddodwyd y fendith gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis. Bu'r brecwast yn arbrawf llwyddiannus iawn a mynegodd nifer o bobol yr awydd i gynnal gweithgaredd tebyg eto flwyddyn nesa. Dyma englynion o waith Wyn Owens, Mynachlogddu i gyfarch Mererid Hopwood.

I Mererid

Ym mheroriaeth Mererid – ei hynni
Sydd inni'n galondid.
Rhy o'i dysg er rhai di-hid
O heddwch ac o'n rhyddid.

Deced yw nod cymodi – a chyd-ddyn
Heb elyn na bwli.
A'i doniau'n sail odani
Mae'r wawr uwch ei chamre hi.

Di-wyro yw'n hawdures, - un a'i ffordd
Mor ddi-ffael o gynnes.
Egniol yw, dwg i'n les
Eicon ein gwlad wyt roces.



Mererid Hopwood yn annerch y gynulleidfa yn y Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca.



Swyddogion a'r rhai fu'n cymryd rhan

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com


LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

# Cornel Llên

## CyhoeddiadauBarddas

### Barddas yn cyhoeddi cyfrol newydd o farddoniaeth gan Alan Llwyd

Pan ddaw'r cyfnos, mae'n brydferth. Mae'r awyr yn newid ei lliw a daw golau gwahanol ar y byd.




Cyfnos yw'r gyfrol ddiweddaraf o gerddi gan y Prifardd Alan Llwyd. Y mae'n un o'n prif feirdd ni'n ddi-os, yn gofiadur i'r genedl yn ogystal ag yn fardd. Y mae'r gyfrol hon yn cynnwys rhai o gerddi gorau Alan; y mae ei awen a'i ddawn yn amlwg yn Cyfnos.

Gellid dweud bod Alan wedi cyrraedd cyfnos ei fywyd a dyma bwynt ardderchog i edrych yn ôl a thafoli ond hefyd i edrych tua'r dyfodol, gan obeithio.

Casgliad telynegol ac arbennig a geir yn Cyfnos, yn edrych ar dreigl amser o safbwynt oedolyn a welodd amser yn llithro heibio ac sy'n gresynu at y ffaith fod amser yn cerdded o hyd. Fel y dywed yn ei gerdd i'w ŵyr Tristan, 'Y Rhodd Werthfawr':

'fel hyn... y mae amser yn diflannu,
llithro mor rhwydd bob blwyddyn,
llithro a rhuthro i'w hynt
fel y nos o flaen y wawr,
fel nant yn cyflymu,
yn byrlymu heb arafu ei brys.
Amser yw popeth.'

Mae cerddi yma i enwogion byd y sgrin fach, o Syr Wynff a Plwmsan i Sharon Morgan, a cherddi sy'n tafoli heddwch a rhyfel, a hynny yn yr amserau tyngedfennol hyn. Mae hefyd yn canu i gydnabod pobl leol a chymeriadau Cwm Tawe. Ceir yma gerddi sy'n edrych yn ôl ar ei deulu ei hun - cerddi i'w blant, i'w wraig ac i'w wyrion - a'r cyfan yn drymlwythog o gariad a pharch.

Yn ddi-os y mae grym y geiriau a'r awen yn tasgu dros bob tudalen yn Cyfnos. Dyma gyfrol y bydd llengarwyr yn sicr o fynd yn ôl ac yn ôl ati i bori rhwng ei thudalennau.

Yr artist Iwan Bala sydd wedi'i gomisiynu i greu'r ddelwedd arbennig ar glawr y gyfrol.

Gwanwyn

Pwy fedr ddweud yn llawn mewn gair neu gân
Am deimlad newydd ddaw ar fore clir;
Wrth glywed trydar yn y llwyni glân
A blagur ysgafn yn goleuo'r tir;
Pelydrau haul yn euraidd ar y mur
A swn peiriannau wrth eu gwaith drachefn,
Y Cenin Pedr mewn gogoniant pur
A chwmwl yn yr awyr lâs mewn trefn.
Agorir drysau i groesawu'r dydd,
Daw nwyf ieuenctid 'nôl am ennyd fach
Wrth gefni ar y gaeaf, a dod rhydd
I syllu ar brydferthwch natur iach;
Ceir gwên ar wyneb holl drigolion bro -
Fe ddaeth y Gwanwyn eto, yn ei dro. *N.E.*

# Dawnswyr Talog

Mae dechrau'r flwyddyn wedi bod yn llawn bwrlwm i'r dawnswyr, gan ddechrau gyda'r cinio blynyddol llwyddiannus ar nos Wener, 13eg Ionawr yn y Lamb, Llangeler. Ymysg y gwahoddiadau hyd yma eleni bu cyfle i gynnal noson yng nghwmni aelodau Sefydliad y Merched Sir Gâr ar nos Wener, 10fed Chwefror, gyda Neuadd Bronwydd yn llawn o ddawnswyr yn rhoi cynnig ar y twmpath. Bu nifer o'r aelodau hefyd draw yn Llandybie mewn twmpath dawns i gefnogi Apêl Eisteddfod Sir Gâr 2023 ar nos Wener, 3ydd Chwefror.

Cynhaliwyd Pianothon a Thwmpath ar nos Sadwrn 18fed Mawrth, yn neuadd Talog, eto er budd apêl yr Eisteddfod. Bu bysedd Eirlys Phillips yn symud ffwlpelt wrth iddi chwarae'r piano am ddim llai na 5 awr! Diolch i bawb a gefnogodd.

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG


MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

# Cofio Geraint 1928 - 2023

## (" Griffo Welsh")



Ganwyd Tom Wynford Geraint (TWG ) yn Llansaint yn 1928 yn fab hynaf i John a Morfudd Griffiths gyda dau frawd Gareth a Peter yn dilyn.

Fe'i addysgwyd yn yr Ysgol Gynradd Llansaint ac yna yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Caerfyrddin lle bu'n llwyddiannus yn weddol ifanc ac yna ym Mhrifysgol Cymru Abertawe gan ennill gradd anrhydedd BA.

Treuliodd y blynyddoedd nesaf yn gwneud ei wasanaeth milwrol cenedlaethol gyda'r RAF, a dyma lle rwy'n credu iddo ddatblygu yn gymeriad cryf. Penderfynodd i ddilyn llwybr ei dad ac aeth yn ôl i Goleg Abertawe i gwblhau Cwrs Ymarfer Dysgu.

Cafodd ei benodi yn athro Lladin a Chymraeg yn yr Ysgol Ramadeg Hendygwyn yn 1951 ac yno y bu hyd ymddeolodd fel Pennaeth yr Adran Gymraeg yn 1984. Rhoddodd wasanaeth clodwiw a chydwybodol i'w holl ddisgyblion ac yr oeddynt i gyd yn ei addoli a'i werthfawrogi, ac roedd hefyd yn aelod blaenllaw a phoblogaidd o'r staff.

Yn gynnar yn y pumdegau priododd â Margaret Marks a chafodd ei fab Bleddyn (cannwyll ei lygad) ei eni yn 1955.

Roedd yn disgleirio mewn llawer o chwaraeon sef Peldroed dros Gydweli a'r RAF, criced gyda Cydweli a Hendygwyn, ac hefyd wedi chwarae rygbi i Hendygwyn. Yna fe gymerodd at golff a bu'n aelod blaenllaw o Glwb Caerfyrddin am flynyddoedd lawer. Dyna ei hoff bleser a chwaraeodd gyrsiau enwocaf Prydain Fawr, Ewrop a'r Unol Daleithiau. Pan ofynnwyd iddo ychydig flynyddoedd yn ôl dywedodd ei fod wedi chwarae o leiaf 500 o gyrsiau gwahanol.

Bu hefyd yn ysgrifennu hanesion golff i'r Carmarthen Journal am dros bymtheg mlynedd o dan ei ffug-enw "Half-Wedge".

Priododd â Ray Evans o San Cler yn 1974 a buont yn teithio nifer o weithiau i'r Unol Daleithiau pan fu Bleddyn a'i deulu yn byw yno. Fel y soniwyd yn y Cardi Bach y mis diwethaf, bu'n ffrind mawr i John Arfon a bu Ray a Ruby yn teithio llawer ar benwythnosau gwahanol i gystadlaethau Croeseiriau (y Times) ym mhob cwr o Brydain gan gael amser hapus iawn; gyda'r merched yn siopa tra roedd Geraint a John yn chwarae golff ar y Sadwrn ac yna'r cystadlaethau croesair ar y Sul cyn dychwelyd yn ôl i Gymru.

Hyd y diwedd, roedd ei dylwyth, a chroeseiriau yn rhan fawr o'i fywyd dyddiol a chyda ei wybodaeth o Ladin roedd yn arbenigo a chael cryn bleser yn ei datrys.
Bu Ray o gymorth mawr iddo dros yr holl flynyddoedd ac ni allai neb fod wedi gwneud mwy iddo, ac yr oedd ef yn gwerthfawrogi hyn. Er iddo gael problemau cerdded yn ddiweddar, roedd ei feddwl mor chwim ac erioed. Roedd yn dalentog iawn ac yn medru barddoni ac yr oedd yn ysgrifennwr llythyron amlwg a chywir heb ei ail, ac mae'n bechod na chyhoeddwyd dim o'i waith. Tra bu yn yr ysbyty yn ystod y chwe mis olaf, roedd Ray yn ymweld ag ef yn ddyddiol a phob amser yn sicrhau ei fod yn cael pob gofal a chwmni.

Colled fawr i Ray, Bleddyn, Lynfa. a'u teuluoedd ac i'w gyfeillion sydd ar ôl. Roedd yn gymeriad hollol unigryw, cynnes, caredig, dawnus ac amrywiol. Barn rhai yw y gallai fod wedi gwneud mwy o'i holl ddoniau ond yn y diwedd, dyna oedd ei ddewis. *John Arfon Jones*

**Diolch**

Dymuna Ray, Bleddyn, Lynfa a'r teulu ddatgan eu diolch i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am oswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Diolch i'r ymgymerwr Peris Rice a'i gwmni am drefnu'r angladd gydag urddas a pharch, gyda'r gwasanaeth arbennig yn y Capel Coffa dan arweiniad y Parch Huw George ac hefyd i Arwyn Thomas am ei deyrnged gofiadwy.

*"A garwyd mewn bywyd, a drysorir mewn cof "*

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:-
01994 240857

# MEIDRIM

**Henoed**

Buom yn dathlu Gŵyl Dewi gyda chawl yng Nghaffi Beca, Efailwen. Daeth 27 ohonom at ein gilydd i fwynhau cawl bendigedig a gafodd ei baratoi gan Robert James, Nid yn unig y cawl oedd yn flasus ond y danteithion arall pwrpasol ar gyfer dydd ein Nawddsant. Offrymwyd gras gan Meirion Morris.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Ebrill 4ydd yn Neuadd Ieuenctid Meidrim pan fydd Jean Lewis yn siarad am ailgylchu. Wrth y te - Doreen Thomas, Jennifer Price, Glenda Badhams, Meirion Morris ac yn rhoi gwobrau raffl - Gwynfor Price, Brian Davies, Emrys Morgan a Glenda Badhams.

# PWLL TRAP

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Eric Hughes, Hafan Dawel. Yn wreiddiol o Gelliwen, roedd wedi ymgartrefu ym Mhwll Trap ers sawl blwyddyn ac wedi dathlu ei benblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'i wraig, Phyllis, ei ferched Meinir a Menna a'u teuluoedd, ynghyd â'r perthnasau oll, yn eu colled.

Llongyfarchiadau i Paul a Heulwen O'Callaghan, Maesybryn, ar ddathlu eu priodas arian ar ddechrau Mawrth.

Cydymdeimlwn â Margaret a Verian Williams a'r teulu ar farwolaeth brawd Margaret, sef John Hughes o Landdewi Efelffre.

**Bethlehem Newydd**

Cynhaliwyd oedfa Gŵyl Ddewi ar Fore Sul, Mawrth 5ed. Roedd yr oedfa yn seiliedig ar waith y Parch. Peter Williams i gyhoeddi'r Beibl Cymraeg a diddorol oedd clywed ei hanes. Gweinyddwyd y Cymun gan y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas. Yr aelodau fu'n gyfrifol am gyflwyno hanes Peter Williams a diolch iddynt am eu gwaith. Diolch yn arbennig i Marian a Rhodri am baratoi'r gwasanaeth a'r pwerbwynt ac i Dai Rees am gyfeilio ar yr organ.

**Tŷ Croeso**

Cyfarfu Cymdeithas Tŷ Croeso i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Picton, Llanddowor ar Fawrth 1af. Mwynhawyd cawl blasus a danteithion Cymreig. Cafwyd hanes Dewi Sant gan y gweinidog ac yna cwis a baratowyd gan Rhian. Noson hyfryd gyda bwyd a chwmni da i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

Ar brynhawn Sadwrn, Mawrth 4ydd, cynhaliwyd prynhawn anffurfiol Gŵyl y Gân Gŵyl Ddewi ym Methlehem Newydd. Roedd nifer wedi troi i fewn i ymuno i ganu alawon Cymraeg, i ddarllen a gwrando ar gerddi ac i fwynhau cwpaned o de, bara brith, pice bach a sgons. Roedd cyfle i gyfnewid llyfrau Cymraeg hefyd. Cafwyd prynhawn cymdeithasol hyfryd a diolch i bawb a fu'n trefnu ac yn arbennig i Dai Rees am chwarae'r organ drwy'r prynhawn. Casglwyd £120 tuag at Apêl Twrci a Syria.



Apêl y Pasg yw casglu wyau Pasg i'w rhoi i Loches Menywod Caerfyrddin ac eitemau i Fanc Bwyd Hendygwyn.

# SAN CLER

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Don Jones, Gerddi Mair, yn 91 oed. Adnabyddwyd ef fel Don Dŵr oherwydd ei swydd gyda'r Bwrdd Dŵr. Roedd yn berson hynaws a chyfeillgar a oedd, hefyd, yn ddawnus ym myd dartiau wedi ennill cystadlaethau niferus. Cydymdeimlwn â'i wraig Iris, ei ferched Janet a Jackie, y meibion-yng-nghyfraith Kevin a John a'i ŵyr, Richard a'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth.

Llongyfarchiadau mawr i Joanna Mason am ennill "Halen y Ddaear" ar raglen Jonathan ar S4C am ei gwaith gwirfoddol gyda Chlwb Rygbi San Cler. Ar raglen Mawrth 2ail gwelwyd Jo yn cael ei chyfweld gan Sarra Elgan, yn y Clwb lle mae wedi gwirfoddoli ers blynyddoedd, yn bennaf yn y gegin lle mae'n paratoi bwyd ar ôl gêmau ac ar Ddydd Sul. Enillydd haeddiannol iawn.

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h. Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

G WILLIAMS
a'i FEIBION
Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

## Dathlu Gŵyl Dewi



Dyma lun o Thom Davies yn dathlu dydd Gŵyl Dewi. Mae Thom yn ŵyr i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Taf, San Clêr.

# BANCYFELIN

### Cydymdeimlo

Mae ardal Y Cardi Bach yn cydymdeimlo’n ddwys â’r Parchg Beti Wyn James a’r merched ar farwolaeth tad a thadcu annnwyl ddechrau mis Mawrth.

### Eglwysi Cana a Bancyfelin




Daeth aelodau eglwysi Cana a Bancyfelin ynghyd i ginio Gŵyl Dewi hyfryd yn festri Cana bnawn Sul, 5ed o Fawrth. Paratowyd cawl blasus ar ein cyfer gan Sheila Phillips a bu gweddill gwragedd Cana yn gweld i weddill y paratoadau. Cafwyd epilog yng ngofal ein gweindiog, Y Parchg Beti-Wyn James i ddiweddu prynhawn hyfryd iawn o gymdeithasu a dathlu Gŵyl ein Nawddsant.



### Gorymdaith Gŵyl Dewi




Pleser gan aelodau Cana a Bancyfelin oedd ymuno ag aelodau’r Priordy yng Ngorymdaith Gŵyl Dewi tref Caerfyrddin ar y 4ydd o Fawrth. Roedd yn fore llawn llawenydd a chyffro.

**Diolch**

Dymuna’r Parchg Beti-Wyn, Elin a Sara ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, cefnogaeth a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn marwolaeth sydyn tad a thad-cu annwyl. Mae eu gwerthfawrogiad y tu hwnt i eiriau.

### Gibeon

Cynhaliwyd oedfa Gymun dan ofal y gweinidog ar Chwefror 19eg. Cyfeiriodd at gyfraniad Lynn Jones, Hafan Deg i’r eglwys a’i wasanaeth gwerthfawr fel diacon a thrysorydd. Coffa da amdano.

Cafwyd, hefyd, adroddiad gan Annalyn o’r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan y Cyfundeb i drafod y gefnogaeth sydd angen ar yr Eglwysi. Cadeiriwyd y cyfarfodydd hyn, ar ran Pwyllgor Cenhadol y Cyfundeb, gan Annalyn a chynrychiolwyd Gibeon yng nghyfarfod Adran Taf gan Beti-Wyn a Iona.

**RHYDWYN DAVIES**
**TRYDANWR**
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
**SIOP Y PENTAN**
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD’s*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

**Fferyllfa Clunderwen**
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

**Oedfa Dydd Gweddi'r Byd**



Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd, Cylch Bancyfelin yn Ffynnonbedr ar Nos Wener, Mawrth 3ydd. "Clywais am eich ffydd" oedd thema'r oedfa a baratowyd gan ferched Cristnogol Taiwan. Dioch i Iona, Annalyn, Marian, Hiefena a Beti-Wyn am gymryd rhan dros Gibeon ac i Iona, ysgrifennydd y Pwyllgor, am wneud y trefniadau.

# BLAENWAUN

**Moriah**

**Brecwast Gŵyl Dewi**

Mynychodd nifer o aelodau Brecwast Gŵyl Dewi yng Nghaffi Beca ar fore Sul, Chwefror 26ain. Cafwyd oedfa hyfryd, brecwast bendigedig ac anerchiad i'w gofio gan Mererid Hopwood.

Braf oedd cynnal Cymun yng Nghartref Y Garreg Lwyd, San Clêr ar fore Sul, 5ed Mawrth.Trefnwyd yr oedfa gan ein gweinidog y Parchedig Gareth Ioan â'r thema oedd geiriau Dewi Sant "Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred a gwnewch y pethau bychain a welsoch a glywsoch gennyf i."

Hyfryd oedd cael cwmni Glyndwr Davies, ein haelod hynaf, Ann ei ferch a nifer o drigolion y Cartref ynghyd â nifer o aelodau Moriah. Mwynhawyd yr oedfa yn fawr iawn a llwyddwyd i greu awyrgylch fendithiol drwy ganu emynau, anerchiad ar Dewi Sant a nifer o ddarlleniadau a chymun. Moment i gofio oedd clywed Glyndwr yn llefaru Salm 121 pan oedd Meryl yn ei darllen. Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am drefnu. Gobeithir cynnal oedfa eto yn y dyfodol agos.

Trefn yr oedfaon.
Mawrth 19eg: 2 o'r gloch Annalyn Davies.
Ebrill 2il: 3.30. Parchedig Gareth Ioan.
9fed 1.30. Cymun Parchedig Gareth Ioan.

Cyfarchion penblwydd i Jane Evans, Penddôl, Blaenwaun, oddiwrth y gweinidog ac aelodau Moriah. Dathlodd Jane ei penblwydd ar Fawrth 21ain. Iechyd da i'r dyfodol.

# CWMBACH

Llongyfarchiadau i Julie a Phil Higginson Llys-y-gwynt ar enedigaeth eu hwyr cyntaf, mab i Caio a Meleri, wedi ei enwi yn Madog Twm a brawd bach i Ester Skeel. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Ni chafwyd oedfa ar Sul, Mawrth 5ed am fod y Parch. Tom Defis yn sâl. Dymunwn wellhad buan iddo. Cynhaliwyd y Cymundeb ar brynhawn Sul, Mawrth 12fed dan arweiniad Y Parchg. Huw George. Diolch iddo am ei wasanaeth cyson.

Trefn yr oedfaon
Ebrill
2il: Cymundeb - Mr. Lyndon Lloyd, Beulah - 10:30
9fed: Oedfa yng ngofal Y Parchg. Huw George.

**Cydymdeimlwn** a Nansi Evans ar farwolaeth cyfnither, sef Annetta Howells o Langynog. Cafodd Annetta ei magu yn Llanboidy ac yn aelod yn yr Eglwys nes iddi briodi. Bu'r angladd yn Eglwys Llangynog ar Fawrth 6ed.
….hefyd â Nan a John Thomas, Henllan, Llandysul ar farwolaeth Elfyn, brawd John yn ddiweddar.

**Penblwydd hapus** a dymuniadau gorau i Nansi Evans, Penybont a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 98 oed ar Ebrill 25ain.

**Gŵyl Rhinwedd a Moes**

Bu pump o aelodau Ramoth draw yng Nghaffi Beca ym mrecwast Gŵyl Dewi dan nawdd y gymdeithas uchod ar Sul, 26ain o Chwefror. Cafwyd oedfa fendithiol yng nghwmni Mererid Hopwood a brecwast bendigedig.

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735
info.ifanlewis@gmail.com

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

# RHYDWILYM

Bu Annalyn Davies yn gwasanaethu ar brynhawn Sul, Mawrth 5fed. Croesawyd hi i'r oedfa gymun gan Beryl John. Diolch i Annalyn am wasanaeth bendithiol iawn.

Oedfaon
Ebrill
9fed: 2.00 Oedfa gymun - Parch Euros Jones Evans
23ain: 10.30 - Arwel Evans
Mai
7fed: 2.00 Oedfa gymun - Parch Judith Morris
21ain: 10.30 - Parch Peter M Thomas

Dydd Mercher, Mawrth 1af, cynhaliwyd angladd Derek Pearce o Arberth. Yn dilyn y gwasanaeth, claddwyd ei weddillion yn y fynwent lle rhoddwyd ei briod Heather i orffwys tua dwy flynedd yn ôl. Cydymdeimlwn â'r plant, Haydn a Janet a'r teulu i gyd.

Yn ystod y mis bu farw cefnder i Dennis Lewis, a hefyd cefnder i Marilyn Bryan. Cydymdeimlwn â hwy hefyd, ac i bawb sydd wedi colli anwyliaid.

# LLANGYNIN

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Glenmarie Lewis, Talar Las, ar ddod yn hen famgu am yr ail waith ar enedigaeth Ani Elen Rees, merch fach Catrin a Shôn o Grymych.

**Noson Gawl**
Roedd byrddau'r Bryn yn llawn ar gyfer y Noson Gawl i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi nos Iau, Mawrth 2il, a phawb wedi cael noson wrth eu bodd. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Rheoli'r Neuadd , a diolchodd Caroline Jones, y Cadeirydd, i Mary Edwards a'i thîm o wragedd a fu'n paratoi'r cawl blasus a'r pice ar y maen ac i'r cyfeillion a fu'n helpu ar y noson. Diolchodd hefyd i Colin Harries, London House, Hendygwyn, am roi'r cig ar gyfer y cawl, i bob un oedd wedi cyfrannu gwobr raffl ac i Rhian White ac Elfed Lewis am yr adloniant.
Braf oedd cael cyfle i ddefnyddio'r ffwrn, yr oergell a'r cypyrddau newydd yn y gegin sydd wedi'i hadnewyddu gyda diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am y cymorth ariannol a dderbyniwyd tuag at wella'r cyfleusterau yn y Neuadd.

**Bingo yn y Bryn**
Cynhelir noson Bingo dan nawdd Pwyllgor y Neuadd am 7 o'r gloch nos Fercher, Ebrill 6ed 2023. Mr. Glyn Rees, Sanclêr, fydd yn galw'r rhifau. Bydd y drysau ar agor am 7.00 yr hwyr. Cynhelir raffl ar y noson a bydd ychydig o luniaeth ysgafn ar gael yn ystod yr egwyl.

**Pen-blwyddi'r mis**
Llongyfarchiadau i'r canlynol sy'n dathlu eu penblwyddi y mis hwn:
Roy Reynolds,Tymore (89 oed) ar Fawrth11eg; Gareth Thomas, Pantglas (81 oed) ar Fawrth 18fed; Granville Davies, Angorfa, (91 oed) a Richard Pinker, Mount (81oed) ar Fawrth 23ain. Pen blwydd hapus iawn i bob un ohonynt !

**Clwb 60+ Llangynin**
Ar ddydd Iau y 9ed o Fawrth cynhaliwyd cyfarfod misol y Clwb 60+ yng Ngwesty' Corvus Sancler pan y buom yn dathlu dydd ein Nawddsant. Cawsom brynhawn pleserus iawn a phawb wedi mwynhau'r wledd ger ein bron. Roedd y cawl yn fendigedig gyda dewis o bwdinau a the neu goffi i ddilyn a phawb wedi cael eu gwala i fwyta.

Diolchwyd i'r Corvus am y bwyd a'r croeso ac yn unfrydol datganodd pob un eu bod wedi joio mas draw. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Capel y Bryn ar bnawn Iau, Ebrill y 6ed pryd y disgwyliwn Angela Skym o Landdarog i'n diddori gyda'i chasgliad o hetiau dros y degawdau. Croeso cynnes i bawb.

# LLANBOIDY

**Sefydliad y Merched**
Daeth yr aelodau ynghyd ar Chwefror 9fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Croesawodd Brenda Worthing yn ôl i'r cyfarfod wedi iddi dorri ei braich, bu hefyd yn llongyfarch Jayne Evans a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth tenis bwrdd y Sir. Bydd grŵp Rebecca yn cyfarfod yn Amgueddfa Abergwili ar Fawrth 18fed. Bu'r aelodau yn cwblhau eu blodau allan o "beads". Enillydd y raffl oedd Heulwen a bu pawb yn mwynhau dished o de a bisgedi wedi'r cyfarfod.

**Chwaeroliaeth**
Cyfarfu'r aelodau yn y festri ar Chwefror 15fed o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Bu'n cydymdeimlo â Rose


Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

Saer a Myfanwy Thomas, y ddwy wedi colli eu brodyr yng nghyfraith. Yna, croesawodd Jean Lewis, Alma a ddaeth â sawl peth oedd o bwys yn ei bywyd a chafwyd esboniad am reswm pwysigrwydd bob peth yn eu tro. Diolchodd Anne Lewis iddi am brynhawn hyfryd. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Mair Morgan a Gwenda Williams.

**Trinity**

Ar y 5ed o Fawrth, cafwyd oedfa gymun gyda'r aelodau yn cymryd rhan i gofio am ein Nawdd Sant. Cafwyd neges bwrpasol gan y gweinidog Guto Llywelyn.

**Cydymdeimlo**

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Annetta Howells, Llangynog, un o blant Cwrt y Celyn. Cydymdeimlwn â'i mab Andrew a'r perthnasau arall.

**Neuadd y Farchnad - Te Prynhawn**





Cafwyd prynhawn bendigedig gan bawb a fynychodd y te prynhawn ar Sul, Mawrth 5ed. Croesawodd Nigel Thomas, Cadeirydd pawb i'r neuadd ac yn arbennig Côr Meibion Hendy-gwyn a'r Cylch o dan arweiniad Hefina Jones. Mwynhaodd dros 130 o bobl a'r côr de prynhawn traddodiadol Cymreig. Cafwyd amrywiaeth o eitemau gan y côr cyn ac ar ôl y te.

Diolchwyd i'r rhai a fu'n paratoi ac yn gweini'r te ac i bawb a gefnogodd y digwyddiad hwn.

**Noson Ffilm**

Ymunwch â ni yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy ar gyfer fersiwn canu o 'MAMMA MIA'

nos Iau, Ebrill 6ed am 7 o'r gloch.

Tocynnau £3 - talu wrth y drws

*Croeso cynnes i bawb*




# LLANDYSILIO

**Penblwyddi**

Dymunwn benblwydd hapus i Sue Llewellyn, Penycwn, Llandysilio a ddathlodd ei phenblwydd yn 70 oed ar Chwefror 11eg.

....hefyd i Phil Garrad, Brynman, Llandysilio a oedd yn 80 oed ar y 4ydd o Fawrth.

Penblwydd hapus hefyd i Cerys Llewellyn, Fferm y Bush a fydd yn 60 oed ar Fawrth 28ain.



the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook




RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen, Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

## *Penblwydd hapus yn 90 oed*




**Diolch**
Hoffai Brenda Bowen, ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau a'r cyfarchion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

## Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau mawr i Sara Jenkins, merch Paul a Helen o Heol y Llan, Llandysilio, ar ennill y goron yn Eisteddfod Ysgol Uwchradd Bro Preseli. Arbennig !

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**
Cynhelir Pwyllgor Neuadd ar yr ail nos Lun o bob mis, yn Neuadd Llandysilio am 7.30yh. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Ebrill. Croeso i chi ymuno.

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**
Ym mis Mawrth daeth Eryl George i siarad am ei gwaith adeg Covid 19, gyda 'Track and Trace', a dangos i ni pa mor bwysig yw golchi eich dwylo yn dda. Roedd yn ddiddorol iawn. Diolch iddi.
Os hoffech ymuno â ni yn Neuadd Clunderwen, rydym yn cyfarfod ar nos Lun gyntaf o'r mis, am 7.30 yh

**CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO**
Neuadd Llandyslio, Llandysilio, Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY
Ar Agor: pob bore
9.00 yb - 12.00
Arweinydd: Liz Lewis
Rhif Ffôn: 07760135392
neu: cmllandysilio@outlook.com
Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716

**Cylch Ti a Fi Llandysilio**
I blant 0-4 oed a'i
Rhieni/gwarchodwyr
Pob prynhawn Mercher
(heblaw ail Mercher
o bob mis)
12.00 - 1.30yp
£2.50
Neuadd Llandysilio

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**
"Dydd Gŵyl Dewi unwaith eto" medd y gân ac rydym wedi bod yn dathlu unwaith eto eleni yn ein capeli.

Ar Sul olaf Chwefror cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi yn Caffi Beca. Digwyddiad newydd oedd hwn a drefnwyd gan bwyllgor Gŵyl Rhinwedd a Moes. Ac fe brofodd yn llwyddiant mawr iawn. Daeth bron 80 o Gristnogion o gapeli'r ardal at ei gilydd ac fe gafwyd defosiwn i ddechrau cyn i bawb mwynhau brecwast blasus a oedd wedi ei baratoi gan staff Caffi Beca. Yn dilyn y brecwast cafwyd anerchiad gwefreiddiol gan Mererid Hopwood wedi ei selio ar Dewi Sant ac ar heddwch a chymod.



Brecwast Gŵyl Ddewi Gŵyl Rhinwedd a Moes

DAVID HARRIES & Co
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk



Yna'r Sul canlynol ar Sul cyntaf Mawrth cafwyd ein Hoedfa Dydd Gŵyl Dewi blynyddol. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y plant a rhieni'r Ysgol Sul a chafwyd hanes ein nawdd sant ganddynt.




Oedfa Gŵyl Ddewi

### Cinio Gŵyl Ddewi



Iola Wyn gyda Heather Jenkins,
Cadeirydd y Gymdeithas

Yn dilyn yr oedfa cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Tabernacl yng Ngwesty Nantyffin. Cafwyd pryd hyfryd tri chwrs ac yn dilyn hyn cafwyd anerchiad arbennig gan Iola Wyn, Sanclêr. Rhoddodd fraslun o'i gyrfa ym myd darlledu ac am y newidiadau mawr ym myd darlledu'r 30 mlynedd diwethaf yma.



Rydym fel capel yn dathlu gyda Catrin a Shon Rees ar enedigaeth ei plentyn cyntaf sef Ani Elen Rees.

Dyma drefn yr oedfaon dros y Pasg a gweddill mis Ebrill a chroeso cynnes i bawb ymuno gyda ni :

Ebrill.

2il : 11.00 Mynwent Soar : Oedfa Sul y Blodau

7fed : 10.30 Bethel, Llanddewi : Oedfa Gwener y Groglith a phaned i ddilyn

9fed : 9.30 Tabernacl : Oedfa Gymun Sul y Pasg

16eg : 10.30 Trinity : Oedfa dan ofal Elonwy Phillips

23ain : 9.30 Tabernacl : Oedfa

30ain : 10.30 a 14.30 Tabernacl: Cyrddau Blynyddol dan ofal Y Parch Irfon Roberts, Aberteifi.

### Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth, fel arfer, yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Ein siaradwr gwâdd oedd Calfin Griffiths o Lanfihangel ar Arth, yn aelod o gangen Siob Cwilt ac yn un o Hoelion Wyth mudiad yr Hoelion Wyth. Mae erbyn hyn wedi ymddeol o'i waith fel llinellwr gyda 'Western Power' ac yn y cyfamser mae wedi ysgrifennu llyfr 'Trydaneiddio Dyffryn Teifi a'r Fro 1914 - 2017'.

Hanes y cwrwgl oedd pwnc ei anerchiad sydd o ddiddordeb mawr iddo. Cawsom wybod am ddechreuad ddefnyddio'r cwrwgl ar afonydd Cymru a thu hwnt gan egluro sut oeddynt yn cael eu adeiladu a chael eu gorchuddio, yn wreiddiol gan groen anifail fel buwch ayb. Dros gyfnod, mae pethau wedi newid ac erbyn heddiw, mae ffibr gwydr ('fibre glass') yn cael ei

SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST
The National Lottery
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

ORW LTD
TRADING AS:
DORIAN PHILLIPS
ADEILADWYR - BUILDING CONTRACTORS
Owain: 07879 495 653
Dorian: 07889 186 036
owain@dorianphillipsbuilders.co.uk
dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

ddefnyddio i selio'r cwrwgl. Mae 'na gwrwgl ar bron pob afon yng Nghymru ac mae angen trwydded cyn mynd ar y dŵr. Dangoswyd ffilm yn dangos yr holl afonydd a'r gwahanol gwrwglau oedd i gael ac yn ddiddorol, roedd gwahanol math o badl yn cael eu defnyddio ar bron bob afon. Roedd Calfin wedi dod a cwrwgl maint llawn i ddangos yn ogystal â llawer o bethau eraill sydd yn ymwneud â'r grefft. Noson ddiddorol ac addysgiadol a diolchwyd i Calfin ar ran yr aelodau gan Wyn Evans.

Cyn gorffen, cawsom ddyddiad ac amser y daith ddirgel flynyddol gan Mel Jenkins, sef y 4ydd o Fai, gyda'r bws yn gadael am 1.30 o'r gloch.



Cylch Meithrin yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi

## Cylch Meithrin Hywel Dda

**Diwrnod y llyfr**





Roedd yn hyfryd i groesawu aelodau Merched y Wawr Hendygwyn i'r Cylch i ymuno â ni yn ein dathliadau Diwrnod y Llyfr.....llawer iawn o ddarllen, stori a chân yn ystod y bore. Diolch o galon i chi Margarette, Rhian ac Ann, ni gyd wedi mwynhau eich cwmni yn fawr iawn!

## Cylch Ti a Fi Hywel Dda



Cylch Ti a Fi yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi

## Penblwydd hapus yn 80 oed



Llongyfarchiadau i John Lewis, Gron Villa, Hendygwyn ar achlysur ei benblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Cafwyd parti yng Nghlwb yr Hufenfa Hendygwyn i ddathlu'r garreg filltir. Diolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, cyfarchion ac anrhegion a dderbyniwyd.

**AWEN TEIFI**

Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau

Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn

Ffôn: 01239 621370

23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

**CENNYDD JAMES**

- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!

Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559

CANOLFAN REHAB CENTRE

therapi chwaraeon clinigol

ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

## *Penblwydd hapus yn 70 oed*



Penblwydd hapus i Lynette James, Bryngwenllian, a fydd yn 70 oed ar Fawrth 26ain. Dymuniadau gorau wrth y teulu i gyd. xxx

## Canolfan Hywel Dda

CLWB CANT HYWEL DDA

Enillwyr mis Mawrth
£50 - Whitland Engineering.
£40 - Iwan a Ester.
£30 - Matthew Brown.
£20 - Elfan Bell.

**GŴYL DDEWI**

Trefnwyd noson gan George Bancroft a'r criw i ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 1af, yng Nghanolfan Hywel Dda. Daeth tua ugain ohonom ynghyd i fwynhau basned o gawl blasus a baratowyd gan staff y caffi, a bara brith a phice ar y ma'n i ddilyn. Ceson ni ein diddanu gan lais peraidd Meredydd Richards wedyn, yn canu'n ddi-gyfeiliant i ni, a diweddwyd y noson trwy dynnu raffl. Diolchodd George i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiant.

# PEN Y BONT



Cynhaliwyd noson ddiddorol yn ddiweddar yng Nghanolfan Pen y bont yng nghwmni Mr Pete Dickson cynrychiolydd elusen Tŵls Cymru, hynny yw Tŵls ar gyfer hunan annibyniaeth," cymorth ymarferol i bobl ymarferol". Mae Tŵls Cymru yn casglu ac adfer hen offer ac yn eu defnyddio yn Affrica i ddatblygu sgiliau a hyrwyddo busnesau lleol.
Diolch i Simon a Sheila Cousin am drefnu'r noson a chasglu'r offer angenrheidiol. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at yr elusen arbennig yma.

# GELLYWEN

**Ainon**

Digalon yw gorfod cyhoeddi marwolaeth un o'n aelodau blaenaf sef Eric Hughes, Hafan Dawel, Pwlltrap neu Ec Boars Head i bawb o'i ffrindie. Hunodd yn dawel yn hwyr ar Fawrth 1af yn ysbyty Glangwili. Bu'n dathlu ei ben blwydd yn 80 oed ar ddiwedd Rhagfyr ond yn fuan wedyn dirywiodd ei iechyd yn sydyn.

Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf â Phyllis, Meinir a Menna a'u teuluoedd ac fe fydd na wacter eithriadol ar eu haelwydydd ar ôl y golled anferth hon.

Bu Eric yn ddisgybl yn ysgol Cwmbach ac yna Trelech a dechreuodd ei fywyd cyflogedig ar fferm Pantyrhedyn cyn symud ymlaen i Gorngafr. Ond fel llawer o fechgyn ifanc yr adeg honno, troi ei law at yrru lori wnaeth wedyn gan ddechrau gyda chwmni Ifor Evans, Meidrim. Cyfnod gyda Mansel Davies wedyn, cyn rhoi cynnig ar grynhoi "churns" yn ffatri laeth Hen Dy Gwyn. Ail ymuno â chwmni Mansel Davies am ychydig unwaith eto cyn rhoi cynnig arall i'r lori laeth, ond y tro hwn roedd y churns wedi diflannu â'r cyfan mewn "bulk".

Roedd yn aelod ffyddlon iawn yn Ainon a bu yn ddiacon ers 1976 ac yn fuan wedi hynny, fe fu ein cyhoeddwr ar y Suliau a llywydd unrhyw bwyllgorau a ddeuai ar ein traws. Fe wnaeth gwaith anodd i edrych yn rhwydd iawn ac fe fydd yn anodd iawn llenwi'r bwlch enfawr y gedi ar ei ôl. Bu Eric hefyd yn aelod oedd wrth ei fodd yng ngweithgareddau cangen Hoelion Wyth, Hen Dy Gwyn.

Cafodd angladd barchus iawn ar ddydd Sadwrn, Mawrth 11eg, a'r gwasanaeth o dan ofal y Parch. Huw George, ac mae'n diolch yn fawr iawn iddo ac i Dennis Jones, Efail-wen am ei urddas arbennig yn trefnu holl weithgareddau yr achlysur trist hwn. Diolch o galon hefyd i Dyfed Thomas o Feidrim a ddaeth atom ar fyr rybudd i lanhau'r llwybrau a'r maes parcio a oedd wedi dirywio yn ofnadwy yn ystod y gaeaf, a gwnaeth hyn o'i wirfodd pan welodd cymaint o aelodau wedi dod ynghyd i gymeni a glanhau'r adeiladau erbyn yr angladd.

Diolch hefyd i bawb arall a fu yn gweithio yn ddiwyd i sicrhau fod popeth wedi bod yn ddi-rwystyr ar hyd y dydd.

**Cyfraniad**

Mrs Brenda Bowen, Llandysilio £10
*Diolch yn fawr*

# LOGIN

**Calfaria** - Oedfaon

Diolch o galon i Mrs Annalyn Davies am ei gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Ebrill
9fed - Euros Jones Evans Cymun y Pasg am 10.30 o'r gloch
23ain - Arwel Evans - Cwrdd am 2 o'r gloch
Mai
7fed - Judith Morris - Cymun am 10.30 o'r gloch
21ain - Peter Thomas - Cwrdd am 2 o'r gloch

Brecwast Gwyl Ddewi
Mynychodd 10 o aelodau Calfaria, Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca, Efailwen ar fore Sul, Chwefror 26ain. Bu'n fore hwylus dros ben - gwelir adroddiad llawn o'r gweithgaredd o fewn tudalennau'r rhifyn hwn.

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i Sian Davies, Kings sydd newydd dderbyn llawdriniaeth yn yr Ysbyty.

# CWM MILES

Trefn yr oedfaon
Ebrill 30ain. Cymun 2 o'r gloch. Nigel Davies.
Mai 28ain. Cymun 2 o'r gloch. Arwel Evans.
Croeso cynnes i bawb.

## Cylch Meithrin Ffynnonwen



Plant y Cylch yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi




Trip i fferm Maesyllan i weld yr wyn bach

## Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Yn dilyn cyfarfod ar nos Fercher, 22ain Chwefror trefnwyd noson arall o "Cwrdd am Glonc". Bu'r noson gyntaf nôl yn Nhachwedd yn llwyddiannus iawn. Cynhelir y noson ar nos Wener, 24ain Mawrth am 7.30. Pawb i ddod â bwyd eu hunan a diodydd o'u dewis. Gweinir te a choffi. Croeso cynnes i blant. Cyfle da i gymdeithasu.

**Noson Cawl a Chân**
**Nos Wener, 21ain Ebrill am 7 o'r gloch**
**Dewch a basn a llwy - Cacen a te i ddilyn**
**Pris £10 - Plant am ddim**
**Croeso cynnes i bawb**

# TRELECH

**Llongyfarchiadau** a phob dymuniad da i Meinir, Plas Newydd ar ddathlu penblwydd arbennig ar ddiwedd y mis.

.... hefyd i Meinir Fronglyd ar ddathlu yr un penblwydd arbennig.

Mae Ambrose, Neuadd, dosbarthwr cydwybodol Y Cardi Bach yn yr ardal hefyd yn dathlu penblwydd arbennig y mis hwn. Pob dymuniad da iddo yntau hefyd.

**Gwellhad** llwyr a buan i Val, Preseli, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Sefydliad y Merched**
Cynhaliwyd cyfarfod Chwefror ar y 4ydd o'r mis yng Nghanolfan Gymunedol Trelech. Ein siaradwr gwadd

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

oedd Y Parchedig Ganon Dr Jeni Parsons, Cefnypant.

Cawsom ei hanes pan ddechreuodd ei gweinidogaeth yng nghanol stad fawr o dai cyngor yng Nghaerloyw, a'r holl broblemau oedd yn helpu i'w datrys yn sgil hynny. Wedyn, symud i gefn gwlad, i dyddyn bach yng Nhefnypant. Yn ogystal â chyfrannu i waith yr eglwys, mae'n helpu gyda gwaith mudiad 'Tir Dewi' drwy ateb galwadau ffôn, gan siarad gyda phobl sydd efallai yn unig neu a phroblemau dwys.

Yna, cawsom gwpaned o de a chacen gyda chyfarfod busnes yn dilyn.

**Capel y Graig**

Cynhaliwyd oedfa Undebol hyfryd yng Nghapel Cendy ar y 19eg o Chwefror gyda aelodau capeli'r ofalaeth yn cymryd rhan.

Ar y 26ain o Chwefror bu nifer o'r aelodau yng Nghapel Ffynnonbedr gyda'r gwasanaeth yng ngofal Miss Catherine Davies, Pontiets.

Testun llawenydd mawr i ni fel eglwys oedd gweld tair athrawes ifanc, sef Gwenllian Evans, Elin Phillips a Ffion Thomas yn cael eu derbyn yn aelodau gan y Parchedig Robin Samuel ar y 5ed o Fawrth mewn oedfa gymun. Rydym yn falch iawn o'r dair ac yn dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol. Mrs Eirlys Phillips oedd yn cyfeilio. Cafwyd paned yn y festri ar ôl y gwasanaeth hyfryd.



Ffion Thomas, Elin Phillips a Gwenllian Evans yn cael eu derbyn yn aelodau gyda'r Parchedig Robin Samuel.

Bu'r capel yn llwyddiannus yn ddiweddar o gael grant i gynnal hwb cynnes bob pnawn Dydd Gwener o 1.00 tan 4.00 o'r gloch yng Nghanolfan Cymdeithasol Trelech. Cyfle i drigolion yr ardal ddod at ei gilydd i gymdeithasu, cynnal gweithgareddau amrywiol a chael paned. Dyma'r gweithgareddau a gynhaliwyd ym mis Chwefror: 3ydd - Gwawr Lewis yn siarad am ei gwaith fel cynhyrchydd teledu; 10fed Gemau Bwrdd a hefyd Jean Lewis yn son am ail gylchu; 17eg – pnawn difyr a chwis yng nghwmni'r Parchedig Wyn Maskell. Llongyfarchiadau i dim y dynion am ennill; 24ain – pnawn diddorol yng nghwmni'r milfeddyg, Alun Davies. Hefyd, diolch i ddisgyblion Ysgol Hafodwenog am dreulio hanner awr fach gyda ni ar ddechrau'r cyfarfodydd. Estynnir croeso cynnes i bawb sy'n dymuno ymuno gyda ni.

**Hwb Cynnes**



Pnawn yng ngwmni'r milfeddyg Alun Davies



Pnawn yng nghwmni'r Parchg Wyn Maskell

# NEWYDDION BLAENCONIN

## CYMDEITHAS, CACEN A CHLONC

### 'Tonic y Cwm'



Daeth nifer o aelodau a chyfeillion yr Eglwys ynghyd i 'Cymdeithas, Cacen a Chlonc' ar y Sul olaf o Chwefror a hynny am fod Lilwen Mcallister o Gwm Gwaun wedi cytuno ymuno â ni am y prynhawn. Mae Lilwen yn un o'r cymeriadau hynny sy'n dod â gwên a goleuni bob amser a chafwyd amser hwyliog iawn yn ei chwmni.

Bu'n sôn am ei magwraeth yng Nghwm Gwaun ac am atgofion melys o'r gorffennol. Adroddwyd hanes amdani hi a'i chwaer, Gwenda, yn cerdded y Cwm i hel Calennig yn ystod Hen Galan ac am y croeso mawr a rhoddwyd iddynt yn ystod y dydd. Gadael y tŷ yn gynnar y bore gan ddychwelyd wrth iddi dywyllu.

Mae Lilwen yn aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Brynach, Pontfaen, ac roedd ganddi nifer o straeon am Aelodau a Ficeriaid yr Eglwys. Mae Lilwen wedi bod yn cadw gwely a brecwast ers 49 blynedd ac wedi ennill nifer o wobrau am ei chroeso a'i lletygarwch. Adroddodd hanes am yr 'Inspector' yn dod gan gyrraedd yn hwyr yn nos ac yntau'n ffaelu cael ei ffôn symudol i weithio. Lilwen, wrth gwrs, yn dod i'r adwy ac yn ei gynorthwyo, heb wybod ar y pryd, mai ef oedd yr 'Inspector' !

Bu Lilwen yn sôn amdani hi a Gwenda yn rhyddhau 3 CD gan ein cludo i gyngherddau ar hyd a lled y wlad o Lanelli i Landudoch ac o Rhydaman i Roch.

Roedd pawb wedi mwynhau ac un o'r gynulleidfa yn disgrifio Lilwen fel 'tonic' ... gwir y gair.
Diolch i Lilwen am ddod atom ac am ein diddanu. Boed bendith ar ei gwaith a hithau'n agor drysau Erw Lon i ymwelwyr unwaith eto ym mis Mai.

## Y Gymanfa Bwnc 2023

A ninnau bellach yng nghanol tymor y Grawys, gwyddom fod Sul y Pasg gerllaw ac wedi inni ddathlu'r Atgyfodiad, byddwn yn dechrau'r daith tua'r Sulgwyn a'r Gymanfa Bwnc.

Bydd yr Ysgol Sul yn dechrau ar 16eg Ebrill ac mae hynny'n golygu bydd eisiau dewis y bennod a'r Anthemau a pharatoi ac argraffu'r llawlyfr mewn da bryd. Unwaith eto, gwahoddwn aelodau a chyfeillion yr Eglwys i ddewis pennod ac anthem/anthemau ar gyfer y Pwnc gan gyflwyno'i syniadau gerbron y gynulleidfa erbyn dydd Sul, 5ed Mawrth.

## Disgyblaeth y Grawys

Yn ystod mis Chwefror roedd Huw yn gadael y tŷ wrth iddi wawrio mewn ymgais i hyrwyddo gwaith 'Epilepsy Action'. Y bwriad oedd cyrraedd targed o gerdded 50 cilomedr yn ystod y mis sef 1.78 km y dydd. Erbyn diwedd Chwefror roedd Huw wedi rhedeg 109.04km (67.75 milltir) gan godi £300 i'r elusen. Mind over mattress !

## Bore Coffi Ratifa

Daeth y ffyddloniaid ynghyd ar yr ail Sul o Fawrth i gofio Ratifa. Mae aelodau'r Eglwys wedi cael gwahoddiad i deithio i Ntwetwe yn Uganda i gwrdd â Ratifa - nawr dyna i chi brofiad ! Nid ydym wedi bod mewn sefyllfa i ddod ynghyd ers tua thair blynedd ond mae nawdd ariannol yr Eglwys yn parhau.

## Y Gymanfa Ganu

Gwahoddwyd rhai ynghyd yn ddiweddar i drafod dyfodol y Gymanfa Ganu a daethpwyd i'r penderfyniad mai doeth a da fyddai cynnal y Gymanfa Ganu unwaith eto eleni. Cynhelir y Gymanfa yn y Tabernacl, Maenclochog fore Sul, 15 Hydref am 10.30 o dan arweinyddiaeth Angharad Edwards.

## TREFN OEDFAON

Dydd Sul, 2 Ebrill: Oedfa bregeth - 10.30

Dydd Gwener, 7 Ebrill
Dydd Gwener y Groglith - Oedfa am 9 y bore

Dydd Sul, 9 Ebrill- Sul y PASG
BORE COFFI RATIFA - 10.00
Oedfa gymundeb - 1030

Dydd Sul, 16 Ebrill: Oedfa bregeth - 10.30

Dydd Sul, 23 Ebrill - Ysgol Sul

Dydd Sul, 30 Ebrill - Ysgol Sul

## NEWYDDION o'r FFYNNON

**Mewn Cydymdeimlad**
Tristawyd aelodau'r Eglwys wedi derbyn y newyddion am farwolaeth y brawd John Hughes. Mae'r Ffynnon wedi dibynnu'n drwm ar deulu Hughes am genedlaethau.

**Gwellhad buan**
Mae Doug Morgan wedi treulio peth amser yn yr Ysbyty ac yr ydym yn dymuno gwellhad buan iddo.

# EFAILWEN

**Hoelion Wyth – Cangen Beca**
Cyfarfu aelodau Hoelion Wyth Beca ar nos Fercher, Chwefror 26ain, yng Nghaffi Beca, Efailwen fel arfer. Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Eifion Evans cyn iddo gyflwyno'r siaradwr gwadd sef John Davies, neu John Cwmbetws, fel mae pawb yn ei adnabod. Dechreuodd John drwy atgoffa'r aelode ei fod wedi bod yn siaradwr gwadd gyda'r gangen tua 20 mlynedd yn ôl, pan fu'n sôn am gymeriadau'r fro. Fe wnaeth hefyd longyfarch Cymdeithas yr Hoelion Wyth am yr holl waith maent yn ei wneud trwy godi arian tuag at elusennau amrywiol.









Testun anerchiad John oedd ei gysylltiad gyda'r Sioe Frenhinol dros y bump degawd dwetha. Cafodd ei gyflwyno i'r sioe yn 1975 drwy ei gysylltiad gyda'r Ffermwyr Ifanc pan oedd yn aelod o glwb Eglwyswrw. Bu'n cystadlu mewn cystadleuaeth coginio tarten fale – ac enillodd e! Cafodd ei gyfweliad cyntaf ar y teledu, gyda'r bytholwyrdd Beti George yn ei holi!

Bu'n mynychu'r sioe yng nghwmni ei rieni a'i chwiorydd, yn flynyddol, pan yn blentyn, ac mae wedi para i wneud hyn bob blwyddyn ers hynny. Yn 1984 cafodd "screen test" gyda HTV, Tir Na Nog a Ffilmiau'r Nant ar gyfer rhaglenni teledu yn ymwneud â'r Sioe a chafodd fwynhad mawr yn eu cyflwyno.

Yn 1991, Shir Benfro oedd yn noddi'r sioe a chafodd John wahoddiad i feirniadu'r Sioe Dalent, profiad pleserus iawn iddo. Hefyd yn y sioe honno, enillodd Tom Cwmbetws, ei diweddar dad, wrth arddangos cobyn o'r enw Drygarn Delyth - dyna beth oedd sioe i'w chofio!

Yn 2007, tro Shir Benfro oedd noddi unwaith yn rhagor. Gwnaeth Edward ac Eireen Perkins, llywyddion y sioe, holi John i agor y sioe yn swyddogol – hynny yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd Cyngor Sir Penfro. Bu hyn yn fraint ac yn anrhydedd fawr iddo. Mae'n rhaid ei fod wedi creu argraff fawr ar aelodau o bwyllgor rheoli'r sioe gan iddo dderbyn gwahoddiad i ymuno â'r pwyllgor y flwyddyn wedyn! Erbyn 2012, pedair mlynedd ers ymuno â'r pwyllgor, cafodd ei ethol yn gadeirydd, swydd wnaeth e gyflawni yn ddi-dor am 10 mlynedd. Yn fuan wedi iddo ddechrau fel cadeirydd, gwnaeth David Walters, prif weithredwr y sioe, ymddeol – ar ôl bod yn y swydd am 34 mlynedd. Roedd rhaid bwrw ati ar unwaith i chwilio am olynydd iddo a llwyddwyd i wneud hynny wrth apwyntio Steve Hughson, cyn uwch brif arolygydd gyda'r heddlu. Roedd y sioe wedi gwneud elw o £78,000 yn 2012, ond llai na degawd yn ddiweddarach, roedd trosiant y sioe yn £6.5 miliwn gydag elw o £600,000.

Yn ôl John, bu'n ddegawd o gadeirio cyfarfodydd di-ri, derbyn ac ateb ebyst niferus wrth y prif weithredwr, yn ogystal â bod yn wyneb ac yn lais i'r sioe ar y cyfryngau. Mae wedi cyfarfod gyda phob prif weinidog ers Gordon Brown – David Cameron, Theresa May, Boris Johnson, Liz Truss a Rishi Sunak, yn ogystal â phrif weinidogion Senedd Cymru sef Rhodri Morgan, Carwyn Jones a Mark Drakeford.

Bu'n fraint iddo gael cydweithio gyda mawrion y genedl megis Meuric Rees, Alun Davies a Dai Lewis – Dai Lewis yw'r unig unigolyn sydd wedi dal y dair swydd uchaf o fewn y gymdeithas; fel llywydd, Cadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Cyngor. Derbyniodd John fedal aur y Gymdeithas ac Is Lywyddiaeth oes er anrhydedd am ei wasanaeth nodedig, ar ôl arwain fel cadeirydd am 10 mlynedd.

Cafwyd cyfle i holi ambell gwestiwn i John ar y diwedd a diolchwyd iddo'n ddiffuant gan Eifion, am noson wirioneddol wych.

Bu pawb yn mwynhau basned o gawl bendigedig Robert cyn mynd am adref. Byddwn yn cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Mawrth 29ain pan fydd Mike Thomas o Hwlffordd yn ein hanerch.




Eifion Evans, Eurfyl Lewis a Ken Thomas yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef John Davies (John Cwmbetws).

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Doris a Roy Evans, Pantymenyn ar farwolaeth brawd yng nghyfraith sef Mr Jeff Jones o Bontargothi.

....hefyd â Menna a Clive Evans, Rhodri ac Elen, Dolwerdd ar farwolaeth tad a thadcu annwyl, sef Eric Hughes, Pwlltrap.

Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
- Bwyd anifeiliaid
- Ffensio
- Nwyddau ar gyfer y fferm
Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679

Huw Owens
Saer Coed
Dan y Coed
Glandy Cross
Efailwen
Clunderwen
SA66 7XA

Ffôn: 01994 419315
Symudol: 07974 801672
Gwaith To • Ceginau • Ffenestri • Gwaith atgyweirio...a.y.y.b.

Pethau Olyv

Ffasiynau, gemwaith ac ategolion merched
Mermaid Buildings
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230590
info@pethauolyv.co.uk

# AM DRO!

**Mae'r gyfres deledu boblogaidd Am Dro! nôl ac yn chwilio am gymeriadau a cherddwyr o bob gallu. Hoffech chi gael y siawns i ennill mil o bunnau?**

**Dyma gyfle i ddangos eich cornel chi o Gymru ar ei orau! Lle mae eich hoff lwybr chi? Bydd pedwar cystadleuydd yn dewis taith er mwyn rhannu eu milltir sgwâr gyda ni.**

**Bydd hwyl ar y siwrnai gyda chwmni lliwgar a bydd yr enillydd yn ennill mil o bunnau.**

**Os da chi'n meddwl bod eich milltir sgwâr werth ei weld, cysylltwch ar amdro@cardiffproductions.co.uk, ffoniwch 02920 647 777, neu sganiwch y côd QR yma, a dewch Am Dro!**

## CYMDEITHAS AREDIG LLANGOLMAN

**GORNEST AREDIG HEN DRACTORAU**
**AC**
**ARDDANGOSFA HEN DRACTORAU**
AR
**DDYDD SADWRN 8fed O EBRILL 2023**
YN



**CARNHUAN,**
**EGLWYSWRW,**
**CRYMYCH,**
**SIR BENFRO**
**SA41 3SY**



**AM FWY O WYBODAETH:**
**Mr. Leighton Bryan, Colman House, Llangolman, Clunderwen, Sir Benfro, SA66 7QL**
Ffon : 01437532344
**DYDDIAD CAU**
**3ydd o Ebrill, 2023**

MYNEDIAD: OEDOLION £5
PLANT: AM DDIM
LLUNIAETH AR WERTH





## Jones Login

Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ebrill** | | |
| Llun 26 | **Gwesty Warner - Nidd Hall, Swydd Efrog** | 4 |
| **Mai** | | |
| Llun 15 | **Hyfrydwch Sir Lincoln** | 5 |
| Llun 22 | **Petalau, Pabi a Phorslen** | 5 |
| **Mehefin** | | |
| Mer 21 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Mer 28 | **Yr Alban - Ucheldiroedd, Tren & Dolffiniaid** | 7 |
| **Gorffennaf** | | |
| Sad 1 | *Sioe Gerdd Take That - Greatest Days, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| 21 a 24 | *Tom Jones - Castell Caerdydd (Bws yn unig)* | 1 |
| 25 a 26 | Sioe Frehinol Cymru | 1 |
| **Awst** | | |
| Llun 7 | **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** | 6 |
| Gwe 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 1 |
| Mer 30 | **NEWYDD Gerddi Highgrove ac ardal y Cotswolds** | 2 |
| **Medi** | | |
| Sad 2 | **Jersey** | 7 |
| Llun 11 | **Windsor a Gerddi Wisley** | 5 |
| Llun 18 | **Cider with Roses - Swydd Dyfnaint** | 5 |
| Llun 25 | **Iwerddon - Mynyddoedd Wicklow a Dilyn** | 6 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref** | | |
| Sad 14 | **Stiwdio Warner, Llundain - Gwneud Harry Potter** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Heythrop, ardal y Cotswolds** | 5 |
| Sad 21 | *Drama - Life of Pi, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5 |
| **Tachwedd** | | |
| Sad 4 | **Carnifal Golau Guto Fowk, Bridgwater** | 2 |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 | **Nadolig Ysblennydd Thursford** | 4 |
| Sad 25 | *Sioe Gerdd - Shrek, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5 |
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5 |
| **Chwefror 2024** | | |
| Sad 3 | *Sioe Gerdd Jesus Christ Superstar, CMC* | 1 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Dyddiad i'w gadarnhau - | **Yr Alban - Ynysoedd Shetland** | 8-9 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerdd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |

**Llyfryn 2023 ar gael nawr!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL HAFODWENOG

**Sgiliau Rygbi**



Diolch i Nico, Swyddog Hwb y Scarlets, am wneud sesiwn cyntaf o sgiliau rygbi gyda disgyblion Cae Glas.

**Codi arian i Syria a Twrci**

Bu aelodau o'r Cyngor Ysgol yn trefnu diwrnod dillad eu hunain am gyfraniad. Aeth yr arian a gasglwyd, £302.50 tuag at yr elusen i helpu dioddefwyr y daeargryn yn Nhwrci a Syria.

**Wythnos Rygbi Rookie**



Yn ystod wythnos Rygbi Rookie, roedd pawb yn cefnogi URC i ganolbwyntio ar hybu menywod a merched mewn rygbi.

**Dechrau Canu Dechrau Canmol**

Bu criw ffilmio DCDC yn ymweld â'r ysgol i ffilmio eitemau ar gyfer rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol a fydd yn darlledu ar ddydd Sul y Pasg. Roedd y disgyblion a staff wedi mwynhau'r profiad.

**Perllan Gymunedol**




Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn symud meinciau a phlannu coed/bylbiau ar gyfer y berllan gymunedol newydd. Ariannwyd y meinciau, coed, dros 100 o fylbiau, casgen ddŵr a llawer o offer garddio gan gais llwyddiannus a wnaed i Cadwch Gymru'n Daclus gan ein Cyngor Eco.

**Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi**



Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yr Ysgol a'r Cylch

**Eisteddfod Ysgol**

Braf oedd cynnal Eisteddfod Ysgol unwaith yn rhagor ar ôl bwlch o dair mlynedd. Roedd y disgyblion wedi mwynhau cystadlu mewn gwahanol eitemau. Diolch i'r beirniaid, Miss Teleri James – llefaru a Miss Sioned Beynon – canu.

Llongyfarchiadau i'r canlynol :

Cadi Thomas – pwyntiau uchaf ar y llwyfan
Teleri Brooks – pwyntiau uchaf celf a chrefft
Sara Davies – perfformiad gorau ar y llwyfan
Mari Davies – ennill y gadair am ysgrifennu darn o farddoniaeth

Llongyfarchiadau i aelodau tîm Teifi am ennill yr Eisteddfod.

# YSGOL BANCYFELIN

Diwrnod Saff i Siarad



Roedd Chwefror 2il yn ddiwrnod gwahanol yn ysgol Bancyfelin- diwrnod Saff i Siarad, sef diwrnod o siarad am deimladau. Ni fu unrhyw waith ysgrifenedig ar y diwrnod yma - dim ond siarad a gwneud gweithgareddau oedd yn gwneud y disgyblion yn hapus, fel coginio, chwarae gemau a dawnsio. Daeth pawb mewn ag unrhyw beth oedd yn eu gwneud i deimlo'n hapus i'r ysgol.

**Dydd Miwsig Cymru**

Ar Ddydd Miwsig Cymru, bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngerdd rhithiol gyda Tara Bethan yn ogystal â gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth Cymraeg drwy'r dydd.

**Dydd Gŵyl Dewi**



Bu wythnos o ddathliadau yn Ysgol Bancyfelin ar Ddydd Gŵyl Dewi, wedi ei drefnu gan y Cyngor Cymraeg. Roedd pawb wedi gwisgo yn eu gwisgoedd traddodiadol a'u crysau rygbi a phêl-droed. Cafwyd cawl blasus a phice ar y maen i ginio. Yn ystod yr wythnos bu disgyblion Dosbarth y Llan yn dysgu am hanes y wisg Gymreig gydag Arglwyddes Llanofer mewn sioe gyda'r cwmni Mewn Cymeriad. Fel clo ar yr wythnos trefnodd y gymdeithas rieni, gawl, twmpath ac adloniant yn Neuadd y pentref. Wythnos wych o ddathlu!

**Diwrnod y Llyfr**




Am yr eildro yn yr wythnos roedd Ysgol Bancyfelin yn fôr o liw ar ddydd Iau, Mawrth 2il, gyda phawb yn eu gwisgoedd Diwrnod y Llyfr a oedd yn amrywio o'r Lindysyn Llwglyd, i Harry Potter, i Mr Wonka. Cynhaliwyd diwrnod cyfan o weithgareddau darllen ac roedd pawb wrth eu bodd.

**Eisteddfod yr Ysgol**



Ar ddydd Mercher, Mawrth 8fed cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol lle cafwyd prynhawn o gystadlu brwd, ac roedd pawb yn falch iawn i groesawu Mrs Gwyneth Stephens yn ôl i'r ysgol i feirniadu. Diwrnod i'w gofio!

# YSGOL BECA

**Dydd Gŵyl Dewi**



Fel ysgol, dathlom Ddydd Gŵyl Dewi ar y cyntaf o Fawrth. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig a diolch yn fawr i Mrs Parker y gogyddes am goginio cawl blasus. Buodd

dosbarth Carn Menyn a Chwm Cerwyn yn ffodus i fynd ar drip i Lyfrgell Caerfyrddin. Yno, gwyliodd y disgyblion berfformiad 'Taith yr Iaith' gan gwmni Mewn Cymeriad. Dysgodd y disgyblion am hanes yr iaith Gymraeg a'r pwysigrwydd o ddefnyddio'r iaith bob dydd wrth anelu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050!

**Diwrnod y llyfr**



Ar ddydd Iau, 2il o Fawrth roedd hi'n ddiwrnod y llyfr. Braf oedd gweld y disgyblion wedi gwisgo fel cymeriadau o'u hoff lyfrau. Llongyfarchiadau i Huw, Katie a Carys ar ennill taleb llyfr Siop Siân am eu gwisgoedd gwych.

**Cyngerdd Eisteddfod yr Urdd**



Braf oedd gweld pob disgybl yn perfformio yn ein cyngerdd ysgol wrth adrodd a chanu darnau unigol Eisteddfod yr Urdd eleni. Cafwyd bore hwylus yn perfformio i rieni a'r gymuned. Da iawn i bob disgybl am gymryd rhan.

**Perfformio i Ferched y Wawr yng Nghaffi Beca**

Ar ddydd Iau y 9fed o Fawrth buodd criw o ddisgyblion yng Nghaffi Beca yn perfformio i Ferched y Wawr. Cafwyd amrywiaeth o eitemau gan gynnwys canu gan gôr yr ysgol, llefaru grŵp a chanu unigol. Diolch am y gwahoddiad a diolch i Gaffi Beca am ddarparu lluniaeth ysgafn.

**Gala Nofio**




Ar fore dydd Iau y 9fed o Fawrth buodd criw o ddisgyblion yn cymryd rhan yng ngala nofio. Roedd y gala ym mhwll Canolfan Hamdden Crymych. Da iawn i Lewis, Leo, Celyn a Medi am gystadlu.

Llongyfarchiadau i Medi ar ddod yn gyntaf yn y strôc cefn.

## YSGOL BRO BRYNACH

**Y Pentref**



Tro y Dysgu Sylfaen oedd crwydro'r pentref mis yma yn edrych ar adeiladau pwysig. Cawsom hwyl yn edrych ar wahanol nodweddion yr adeiladau. Trafodwyd y cadno ar ben y neuadd a'i bwrpas a dysgwyd enwau y gwahanol adeiladau. Yn dilyn y daith hanesyddol, gwnaethpwyd gwaith yn y dosbarth.

**H THOMAS a'i FAB**
**Peiriannydd Amaethyddol**

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
**a'i Feibion**
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

**Y GARREG LWYD**
Heol Salem, Sancler
***Cartref Oddi Cartref***

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Dydd Gŵyl Dewi**
Bu dathlu mawr ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda phawb wedi gwisgo mewn gwisgoedd Cymreig neu grysau coch Cymru. Cawsom gyngerdd o eitemau'r Eisteddfod yn y bore cyn i bawb fwynhau cinio o gawl blasus! Bu pob dosbarth wrthi'n coginio pice ar y maen yn y prynhawn.

**Diwrnod y Llyfr**
Ar Ddydd Iau, yr 2il o Fawrth, buom yn dathlu 'Diwrnod y llyfr'. Braf oedd gweld pawb wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr. Bu pob dosbarth yn gwneud gweithgareddau i hybu sgiliau darllen yn ystod y dydd. Cafodd pob plentyn yn yr ysgol rodd o lyfr darllen Cymraeg a llyfrnod i fynd adref.

**Cynefin**
Fel rhan o'u gwaith thema bu dosbarthiadau Gronw a Cynin yn blasu a chymharu bwydydd a gynhyrchwyd yn yr ardal leol gan gynnwys ysgytlaeth Fferm Wern, pice ar y maen o JoJo Bakes, a mêl o fferm Frowen, Llanboidy. Bu'r plant yn cofnodi canlyniadau'r profion blasu mewn graffiau a thablau. Cafwyd trafodaethau am fanteision ac anfanteision prynu a chynhyrchu bwydydd yn lleol.

**Chwaraeon**




Bu Jac, Barnaby a Hannah yn cystadlu mewn gala nofio a drefnwyd gan Ganolfan Hamdden Crymych. Llongyfarchiadau i'r tîm am lwyddo i ddod yn drydydd allan o wyth o ysgolion Sir Benfro, tipyn o gamp gan dîm o dri nofiwr medrus!

**Eira**



Tipyn o sioc oedd deffro i garped o eira yn Llanboidy ar ddechrau mis Mawrth! Manteisiodd y dosbarthiadau Dysgu Sylfaen ar y cyfle i gynnal cystadleuaeth adeiladu dyn eira. Am hwyl a sbri!

# YSGOL BRYNCONIN

**Twrnament Pêl Rwyd yr Urdd**
Da iawn i dîm pêl rwyd yr Ysgol am gystadlu'n dda yn nhwrnament pêl rwyd yr Urdd ar ddydd Llun, 16eg o Ionawr.

**Cwis Dim Clem, Menter Iaith Sir Benfro**
Da iawn i blant Dosbarth Rhuddem am gystadlu yng nghwis Dim Clem, Menter Iaith Sir Benfro ar ddydd Gwener, 20fed o Ionawr. Diolch i Dafydd Vaughan am drefnu. Roedd y plant wedi mwynhau mas draw.

**Pêl Droed yr Urdd**



Da iawn i dimoedd pêl droed yr Ysgol am gystadlu yn

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

dda yn nhwrnament pêl droed yr Urdd yn Abergwaun ar ddydd Gwener, 3ydd o Chwefror. Diolch i Mr Sam Harris am helpu ni hyfforddi'r timoedd ac i Mr Gary Nicholas am roi ei amser i helpu ni ofalu am y plant ar y diwrnod.

**Gweithdy Canu**
Diolch i Claire Jones a Sioned Llywelyn am ddod mewn i gynnal gweithdy canu gyda'r plant ar brynhawn Mawrth, 7fed o Chwefror. Cafwyd prynhawn da yn gwrando ar lais hyfryd Sioned.

**Diwrnod Miwsig Cymru**
Cafwyd amser da yn dathlu Diwrnod Miwsig Cymru ar y cyd gyda ysgol Maenclochog ar ddydd Gwener, 10fed o Chwefror. Braf oedd gweld nifer o blant wedi gwisgo fel canwr enwog o Gymru. Gwelwyd enwogion fel Elin Fflur, Dafydd Iawn, Welsh Whisperer a Bronwen Lewis. Cafwyd cyfle i ddysgu dawns arbennig a chyfle i gymryd rhan mewn cwis am gerddoriaeth o Gymru. Diolch i Swyddogion Cabinet Iaith a Diwylliant y Ffederasiwn am drefnu'r diwrnod.

**Dydd Gŵyl Dewi**



Braf oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig neu wedi gwisgo mewn coch ar Ddydd Mercher, Mawrth 1af i ddathlu Dydd Gwyl Dewi. Cafwyd cyfle i ddysgu am ein nawddsant ac i ddathlu ein Cymreictod.

**Eisteddfod Ysgol**
Da iawn i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfod Ysgol ar fore Mawrth, 28ain o Chwefror. Braf oedd gweld pob plentyn yn ymdrechu a gwneud eu gorau glas. Llongyfarchiadau enfawr i'r rhai a ddaeth yn fuddugol ond eto, da iawn i bawb a gymerodd rhan. Diolch i Mrs Glesni Vaughan am feirniadu y cystadlaethau amrywiol.



Llongyfarchiadau enfawr i Tomos Nicholas am ennill y gadair, i Deri Nicholas am ennill y goron ac i Angelica Pearce am ennill tlws Mrs A Huws am ennill y mwyaf o bwyntiau ar y diwrnod. Llongyfarchiadau enfawr hefyd i dŷ Bronfraith am ennill y mwyaf o bwyntiau. Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cynrychioli Ysgol Brynconin yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Clunderwen ar Ddydd Llun, 13eg o Fawrth.

**Dysgu yn yr Awyr Agored**
Dros y misoedd diwethaf rydym wedi cynnal diwrnodau Dydd Llun Llawen a Dydd Mawrth Mwdlyd – cyfle i blant ddatblygu eu sgiliau yn yr awyr agored. Mae'r plant yn mwynhau y seisynau yma ac rydym wedi cynnal gweithdy gofalu am ein amgylchedd, casglu sbwriel, plannu a chasglu blodau, cennin pedr, creu murluniau ymarfer corff, cynnal ymchwiliad o faint o draffig sydd yn teithio heibio'r Ysgol a gweithgareddau creadigol.

**Llais y Disgybl**
Mae Senedd a chabinet amrywiol yr Ysgol wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf. Mae aelodau hŷn wedi rhoi cyflwyniad o waith Llais y Disgybl i'r llywodraethwyr, mae aelodau Cabinet Iechyd a Lles wedi parhau i fonitro presenoldeb yr Ysgol yn fisol ac wedi rhannu gwybodaeth pam bod hi'n bwysig dod i'r Ysgol bob dydd gyda phlant Ysgol Brynconin. Mae aelodau Cabinet Cyfathrebu wedi rhannu gwybodaeth bwysig am gadw'n ddiogel ar y we ar Ddiwrnod Diogelwch y Rhyngrwyd ac mae aelodau Cabinet Iaith a Diwylliant wedi trefnu gweithagreddau amrywiol a chyffrous i Ddiwrnod Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi.

*Emrys ac Ann Murrow*
**Motel Nantyffin**
**Llandissilio**
Bwyty • Neuadd Wledda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau
Croeso cwrtais bob amser
Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i
gleifion GIG!

**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Cwis Dim Clem Ail Iaith**



Aeth 4 o blant o flwyddyn 6, Dosbarth Myrddin i gystadlu yng Nghwis Dim Clem yn Ysgol Llys Hywel. Cafwyd cystadleuaeth dda rhwng ysgolion yr ardal ac roedd pawb wedi mwynhau.

**Dydd Gŵyl Dewi**




Hyfryd oedd gweld y plant yn eu crysau coch a'u gwisgoedd traddodiadol ar ddiwrnod Gŵyl Ddewi. Cafodd pawb fasned o gawl i ginio a phice ar y maen i bwdin. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu traddodiadau Cymru ym mhob dosbarth gan gynnwys dawnsio gwerin, ymchwilio i fywyd a gwaith Dewi Sant ac astudio gwaith celf Ruth Jên.

**Diwrnod y Llyfr**

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr eleni ar Fawrth yr 2il. Roedd yr ysgol yn lliwgar iawn gan i bawb wisgo fel hoff gymeriad o lyfr. Bu pob dosbarth yn cynnal gweithgareddau ynghlwm â darllen yn ystod y dydd. Bu rhai plant yn cyfweld cymeriadau gan ddefnyddio dull y Gadair Goch tra bod eraill yn ysgrifennu adolygiadau o hoff lyfrau a chynllunio llyfr nodau.



Diwrnod y Llyfr

**Masnach Deg**




Cafwyd diwrnod llawn o weithgareddau Masnach Deg ar draws yr ysgol ar Fawrth yr 8fed – coginio cacennau banana, dilyn taith y fanana ar draws y byd, defnyddio cynhwysion Masnach Deg i goginio pice ar y maen.

Trefnodd y Pwyllgor gystadleuaeth lliwio llun i blant y Cyfnod Sylfaen tra bu plant yr Adran Iau yn creu poster ffeithiol Masnach Deg. Hefyd bu'r Pwyllgor yn brysur yn gwerthu nwyddau Masnach Deg wrth gât yr ysgol. Diolch i bawb am gefnogi.

DENNIS JONES
A'I DEULU
SAER COED
PEINTIWR AC ADDURNWR
TREFNWR ANGLADDAU
Maesawelon
Efailwen
Ffôn: 01994 419561
Symudol: 07817 650858

Bwyty'r Roadhouse Restaurant
Cylchfan Heol Llanboidy, Hendygwyn
Agor bob dydd o 8y.b. - 10y.h.
*Brecwast, cinio a bwyd gyda'r nos*
*Arlwyo ar gyfer unrhyw achlysur arbennig*
Ffôn: 01994 241193

Ken Davies a'i Fab
*Cigyddion*
London House
Crymych
Ffôn: 01239 831978

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus 1af i Nola ar Ebrill 15fed. Merch fach Dafydd a Kelly, Caerfyrddin, wyres Delyth a John, Pwlltrap a Sandra a Simon, Abergwili.



Penblwydd Hapus iawn i Celt Morris, Cefnonnen, Alma a fydd yn dathlu ei benblwydd cyntaf ar y 27ain o Fawrth. Lot fowr o gariad Mam, Dad, dy frawd mawr Tomos, Dadcu Llandysilio, Nana a Dadcu Pantgwyn a'r teulu i gyd xxx



Penblwydd hapus i Sara Elena Jones, Blaenau a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 5 oed ar y 25ain o Ebrill. Cariad mawr wrth Dad, Mami, Gwenno a'r teulu i gyd.



Pen-blwydd hapus i Efan sy'n 9 oed ar Ebrill 17eg. Mae Efan wrth ei fodd gyda phêl-droed felly does dim amdani ond i wylio Cymru'n chwarae! Mwynha dy barti yn y pwll nofio. Cariad mawr wrth Mam, Dad, Griff, Hen Dadcu Roy, Mamgu Llinos, Geraint, Mamgu a Dadcu Pennant a'r teulu oll xxxx

SIOP SIAN CRYMYCH
Crefftau Cymreig
*Gemwaith Rhiannon*
*Crisial Brenhinol Cymru*
*Crefftau Lleol*
*Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau*
*Crymych, SA41 3QF*
*FFÔN: 01239 831230*

MASON BROS
GWASANAETH GWERTHU PEIRIANNAU NEWYDD AC AIL-LAW
THE NORTON YARD, LAMPETER VELFREY, NARBERTH
Ffôn: 01834 831653 / 831553

EUROPA
FFASIYNAU GWALLT
Heol y Pentre, San Clêr
*Mae yna groeso i'r gwŷr hefyd*
*Wendy a Dawn*
Ffôn: 01994 230462

SHWLDIWMWL.CYMRU
CRYSAU WEDI ARGRAFFU A SIOP AR-LEIN
sales@shwldimwl.cymru 01994 448626

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol: 07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab



Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LLIWB OLEW



HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630 www.trefigin.cymru (01239) 881282



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun 3ydd Ebrill | RHEILFFYRD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 14eg Ebrill | MOETHUSRWYDD GWESTY'r BELGRAVE SANDS TORQUAY | £330 | 4 Diwrnod |
| Sul 16eg Ebrill | ?????????? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ????????? | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 21ain Ebrill | PENWYTHNOS GYMREIG YN Y TYNEDALE LLANDUDNO | £405 | 4 Diwrnod |
| Gwener 28ain Ebrill | TAITH Y LLWYBRAU BLODAU EVESHAM | £285 | 4 Diwrnod |
| Sul 7fed Mai | SBAEN - YSBLANDER CANTABRIA | £1,100 | 10 Diwrnod |
| Sul 7fed Mai | SCARBOROUGH | £560 | 6 Diwrnod |
| Gwener 19eg Mai | HYFRYDWCH DARTMOOR ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwener 26ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £375 | 3 Diwrnod |
| Gwener 26ain Mai | CRWYDRO'R ALBAN - YNYSOEDD LEWIS a SKYE HEBRIDEAN | £1,070 | 8 Diwrnod |
| Llun 5ed Mehefin | GERDDI SWYDD LINCOLN a'I HANES DIDDOROL | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 7fed Mehefin | TAITH YSBLENNYDD O'R IWERDDON | £1,275 | 11 Diwrnod |
| Gwener 16eg Mehefin | SIOE FAWREDDOG "BBC GARDENERS WORLD" | £195 | 2 Ddiwrnod |
| Llun 19eg Mehefin | TREN, CWCH a CASTLE HOWARD YN EFROG, LLOEGR | £485 | 5 Diwrnod |
| Iau 22ain Mehefin | CYFLYMDER CEIR RASIO YN GOODWOOD | £365 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 24ain Mehefin | TRENNAU BACH Y RHINEYN YR ALMAEN | £1,150 | 8 Diwrnod |
| Mawrth 27ain Mehefin | LLANDUDNO YN YR HAF | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Gorff | ARFORDIR CYFAREDDOL KENT A CHASTELL LEEDS | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 7fed Gorff | SIOE FLODAU FAWREDDOG HAMPTON COURT | £360 | 3 Diwrnod |
| Llun 10fed Gorff | O AMGYLCH FFINIAU CYMRU | | |
| Iau 13eg Gorff | TAITH FACH FYR I'R COTSWOLDS | £290 | 3 Diwrnod |
| Sul 16eg Gorff | SUFFOLK | £550 | 5 Diwrnod |
| Gwener 28ain Gorff | CYCHOD A THRENNAU Y TYROL YN YR AWSTRIA | £995 | 8 Diwrnod |
| SUL 30ain Gorff | CAMBRIDGE | £525 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Awst | "PEAK DISTRICT" CANOLBARTH A GOGLEDD LLOEGR | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 11fed Awst | GWYL RHYNGWLADOL BALWNS BRYSTE | £255 | 3 Diwrnod |
| Llun 14eg Awst | DURHAM A BEAMISH | £515 | 5 Diwrnod |
| Llun 21ain Awst | WINDSOR FRENHINOL a'r GOGONEDDUS WISLEY | £535 | 5 Diwrnod |
| Mercher 23ain Awst | SIOE AGER A HEN BEIRIANNAU DORSET - BOURNEMOUTH | £395 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Awst | TEITHIO A HWYLIO YN ARDAL Y LLYNOEDD | £530 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 2ail Medi | LLANDUDNO A CHAMLAS LLANGOLLEN | £545 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Medi | GWESTY'R BELGRAVE SANDS TORQUAY | £375 | 4 Diwrnod |
| Llun 11fed Medi | NORFOLK - SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Medi | DUMFRIES a GALLOWAY YR ALBAN | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Medi | ARFORDIR A CHLOGWYNI DONEGAL YR IWERDDON | £675 | 6 Diwrnod |
| Llun 25ain Medi | GOLEUADAU A GOLEUANNAU BLACKPOOL | £360 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Hydref | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 6ed Hyd | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwener 13eg Hyd | HWYL a SBRI gyda CLIVE a'I Ffrindiau yn BOURNEMOUTH | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 20fed Hyd | AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 27ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Tach | TWRCI A THINSEL AR DARTMOOR | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Tach | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | £295 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Tach | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £515 | 5 Diwrnod |
| Gwener 17eg Tach | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | £245 | 3 Diwrnod |
| Sul 19eg Tach | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | £510 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | £440 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Rhag | TREN Y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Rhag | CRACER NADOLIG CERNYWEG YN LOOE | £410 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Rhag | PENWYTHNOS PARATOI AR GYFER Y NADOLIG YN LLUNDAIN | £290 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 30ain Rhag | DATHLU'R FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON | I / G | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

Wenfro
O! Gwyn ein byd – a gwyrdd!

# Glaw neu hindda?

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/04/23**

**Gwenno Jones o Flaenau, Rhydaman yw enillydd Cystadleuaeth Calon Wlân.**
Ateb: 11, 4, 4, 7, 8, 8, 8 a 10 oedd cyfansymiau'r calonnau gwlanog.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**

Chwefror 11eg: Hendy Gwyn 12 - Tregwyr 43. Dim llawer i ddweud heblaw bod y gêm yn adlewyrchiad o’n tymor gwael ni hyd yn hyn, ond hyderwn daw eto haul ar fryn! Sgoriodd Calum Evans a Jack Mason gais yr un a llwyddodd Stu Morris i drosi un ohonynt.

18fed - dim gem

Mawrth 4ydd: Hendy Gwyn 12 - Yr Hendy 34. Dechreuodd Yr Hendy y gêm yn gryf a gwnaethant sgorio ceisiau rhwydd yn ystod yr hanner cyntaf. Brwydrodd Hendy Gwyn nôl yn yr ail hanner wrth i Calum Evans a Jack Mason sgorio cais yr un a gwnaeth Jonathan Thomas drosi un ohonynt.

**Menywod**

Chwefror 12fed - Gem gyfeillgar yn erbyn Llandaf. Fe wnaeth y menywod wynebu tîm hynod o gryf Llandaf a colli’n drwm 57 - 0.

Mawrth 5ed - Rownd gyn derfynol Cwpan: Hendy Gwyn 36 - Llanbed 10. Fe wnaeth y menywod chwarae’n arbennig a curo Llanbed yn rhwydd gan sicrhau lle yn rownd derfynol y cwpan fydd yn cael ei chwarae yn Stadiwm y Principality, Caerdydd. Sgoriodd Marged Williams a Danielle Lawrence dau gais yr un a cafodd Ceulyn Davies ac Amy Morgan gais yr un. Llwyddodd Macey Bowen i drosi 3 o’r ceisiau.

**Ieuenctid**

Chwefror 3ydd: Hwlffordd 24 - Hendy Gwyn 22. Sgoriodd Jack Worthing, Ethan Ryan, Jake Williams a Tyler Reynolds gais yr un a llwyddodd Lennon Reynolds i drosi un ohonynt, wrth i’r bechgyn golli o drwch blewyn yn erbyn tim cryf Hwlffordd.

11eg: Athletic Caerfyrddin 19 - Hendy Gwyn 28. Gêm gyfeillgar oedd hon ac enillodd y bechgyn yn gyfforddus wrth i Ieuan Hill, Lewis Jones, Jack Worthing a Harrison Lloyd sgorio cais yr un, llwyddodd Lennon Reynolds gyda phedwar trosiad.

18fed: Llangwm 17 - Hendy Gwyn 17. Cais yr un i Tyler Reynolds, Jack Jenkins a Jake Williams gyda Lennon Reynolds yn trosi un ohonynt.

Mawrth 4ydd: Mumbles 26 - Hendy Gwyn 19. Gêm gwpan oedd hon a colli fu hanes y bechgyn mewn gêm agos iawn. Sgoriwyd cais yr un gan Morgan Williams, Ieuan Hill a Jack Worthing a llwyddod Lennon Reynolds gyda dau drosiad.

*Suzanne Davies*




Gwahoddwyd aelodau o Glwb Rygbi Hendygwyn i’r gêm Cymru v Lloegr gan Diageo oherwydd amrywiaeth a chynwysoldeb y clwb yn y gamp.

# Clwb Pel-droed Llanboidy

**Tîm 1af**

Ers dechrau mis Chwefror, mae’r tîm cyntaf wedi chwarae pedwar gêm, colli tair ac un gêm gyfartal.

Aberteifi adref oedd gyntaf, ac er oedd y gêm yn agos iawn yn anffodus colli oedd ein hanes gyda’r unig gôl yn dod gan Gethin Scourfield. Bargoed Rangers oedd y gwrthwynebwyr nesaf. Gêm agos iawn eto, ond sgoriodd Bargoed dwy gôl hwyr i ennill 4-2. Nick Jones yn sgorio dwy o’r goliau i Lanboidy.

Llechryd oedd yn ymweld â pharc Dandre nesaf, ac er bod 1-0 a 2-1 i fyny, yn anffodus gorffennodd y gêm 6-3 i Lechryd. Daeth ein goliau gan Nick Jones a Gethin Scourfield (2). Roedd pethau yn edrych llawer gwell yn erbyn Aberteifi y tro hwn gyda goliau Nick Jones ac Adam Moore yn ei wneud yn 2-0 hanner amser, ond sgoriodd Aberteifi dwy gôl yn yr ail hanner i’w wneud yn 2-2.

Dim ond tair gêm i fynd i’r tîm cyntaf; Sêr Dewi i ffwrdd a Chrymych adref yn y gynghrair a Chrannog oddi cartref yng Nghwpan Bae Ceredigion.

**2il dîm**

Dim ond dwy gêm mae’r 2il dîm wedi chwarae ers dechrau Chwefror, ac maent wedi ennill y ddwy.

Chwaraewyd yn erbyn 2il dim Aberteifi oddi cartref, gan ennill o 5-3 – goliau Llanboidy yn dod gan Lewis Thompson, Ashley Herbert a Ben Harvey. Yna ar ddechrau mis Mawrth chwaraewyd yn erbyn 2il dîm Crymych ar Barc Dandre, gan ddod i ben ag ennill y gêm o 3-2. Goliau gan Ashton Arnold a Ashley Herbert (2).

Gêm nesaf yr 2il dim bydd yn erbyn Aberporth yng nghwpan “South Cards” Ceredigion.

Mae’r Clwb yn edrych ymlaen at weddill tymor 2022-2023. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â’r gemau/ymarferion –

http://www.ceredigionleague.co.uk/

neu gyfryngau cymdeithasol y Clwb.

*Rhodri Lewis*

# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Clêr

Croesawon ni Glwb Rygbi Yr Wyddgrug ar Chwefror 18fed i chwarae ein gêm rownd go gynderfynol yng nghystadleuaeth Cwpan Cenedlaethol Undeb Rygbi Cymru Adran 3. Mae'r ddau dîm ar rediad da o ganlyniadau ac yn hedfan yn uchel yn eu cynghreiriau. Gêm gwpan nodweddiadol oedd hon gyda'r Wyddgrug yn sgorio gyntaf. Roedd ganddynt dîm cryf a phac symudol trwm gyda digon o fygythiadau ymysg yr olwyr. Bu'n rhaid i'r Seintiau fod ar ei gorau i sicrhau buddugoliaeth a llwyddom ni yn y pen draw, i gadw'n trwynau ar y blaen, yn dilyn dechrau addawol gan yr Wyddgrug, wrth iddynt arwain o 8 - 0. Y sgôr ar yr egwyl oedd 14 -11 ac fe enillon ni 35 -21 yn y pen draw mewn gêm gystadleuol iawn. Diolch i bawb a wnaeth ein cefnogi ar y diwrnod gyda thorf wych yn bresennol ar Barc Griffith Jones. Sgoriodd Jac Howells ddau gais, a chafodd Liam Rogers a Dan Griffiths (seren y gêm) gais yr un. Llwyddodd Dan i drosi bob cais yn ogystal â tair cic gosb.

Byddwn yn chwarae yn erbyn Clwb Rygbi Vardre yn y rownd gynderfynol, i'w chwarae ar Mawrth 25ain mewn lleoliad a gytunwyd ar y cŷd, sef Clwb Rygbi Nantgaredig. Edrychwn ymlaen i dderbyn eich cefnogaeth wrth i ni edrych tuag at y cyfle i fynd un cam ymhellach yng nghystadleuaeth y cwpan Cenedlaethol hwn.

Gyda'r Chwe Gwlad a'n gêm gwpan, dim ond un gêm gynghrair a chwaraewyd, a hynny yn erbyn Clwb Rygbi Tregaron ar Fawrth 4ydd. Er i ni wneud nifer o newidiadau safle a charfan ar gyfer y gêm hon, fe wnaethom groesawu Tregaron a roddodd frwydr dda ar ddechrau'r gêm - a gwnaethant ddal ati i frwydro hyd y diwedd. Chwaraeodd y Seintiau yn dda iawn gan ennill 95 – 0, gan groesi am 15 cais, gyda Dafydd Waters yn sgorio 3 cais a throsi 10 ohonynt. Diolch i Tregaron am deithio a dymuniadau gorau am weddill y tymor. Cafodd ein Pwyllgor Merched ddiwrnod gwych yn Niwrnod Merched Clwb Rygbi San Clêr gyda tua 80 yn cael eu diddanu ar y diwrnod. Diolch i Gwenlllian a Zoe am drefnu'r digwyddiad hynod lwyddiannus yma.

Hoffwn ddiolch hefyd i'n holl noddwyr diwrnod gêm, yn ystod y tymor am eich cefnogaeth barhaus.

Efallai eich bod wedi gweld rhaglen Jonathan ar S4C pan gafodd Joanna Mason ei henwebu gan y clwb am ei dyletswyddau gwirfoddoli. Mae Joanna yn gwneud cryn dipyn o waith fel ein cydlynydd arlwyo, ysgrifennydd iau a rhedeg siop y clwb. Diolch Jo a'n holl wirfoddolwyr yn y clwb sy'n rhoi'r gorau o'ch amser gwerthfawr i wneud y clwb yn lleoliad croesawgar i rygbi o bob oed. Cafodd Sara Elgan argraff dda o'r clwb yn ystod ei hymweliad a rhoddodd broffil haeddiannol iawn i'r holl wirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed yn y gymuned er budd eraill.

Hoffwn longyfarch ein tîm dan 15 sydd wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Sir Gâr, yn dilyn buddugoliaeth haeddiannol yn erbyn Ffwrnais gan ennill 36 -7. Pob lwc iddynt yn y rownd derfynol ym mis Ebrill.

Gwyndaf Williams







*Lluniau: Chris Rees*